

S4C yn gwrthod “Y Mynydd”

(ond ITV Wales yn derbyn “The Mountain”)

Yn ystod y mis bydd cyfres ddogfen ar Yr Wyddfa yn cael ei darlledu, ond nid ar S4C. Stephen Edwards, yn wreiddiol o Lanberis, gafodd y syniad o wneud rhaglenni dogfen yn dilyn bywyd pobl amrywiol sy'n byw ac yn gweithio ar lethrau'r Wyddfa. Roedd ei gwmni CREAD eisoes wedi cydweithio â chwmni Slam Media ar gynhyrchiadau cynharach, a cham naturiol oedd iddynt ymuno unwaith yn rhagor.

Treuliwyd y rhan helaethaf o'r llynedd yn ffilmio mewn gwahanol leoliadau ar y mynydd er mwyn rhoi golwg dros bedwar tymor o'r peryglon a'r pleserau sy'n wynebu'r bobl hynny sydd â'u bywydau ynghlwm â thirwedd a hinsawdd y mynydd. Dyma'r bobl sy'n gwneud bywoliaeth mewn amryfal ddulliau ar lethrau'r mynydd, ond sydd hefyd yn warchodwyr answyddogol y mynydd uchaf yng Nghymru.

Cynigiwyd y syniad am y gyfres i S4C, ond fe'i gwrthodwyd, a hynny er fod y mwyafrif o'r rhai oedd yn cael eu ffilmio yn Gymry Cymraeg. Ond derbyniwyd y syniad gan ITV Wales, ac yn Saesneg ar y sianel honno y darlledir y gyfres mewn chwe rhaglen o bum munud ar hugain yr un.

Ymhlith y trigolion lleol fydd yn cymryd rhan yn y gyfres mae Steff Owen o Lanberis. Steff yw fforman cynnal a chadw trac Rheilffordd yr Wyddfa, ac y mae'n parhau olyniaeth deuluol. Mae'n perthyn i'r drydedd genhedlaeth sydd wedi dibynnu ar drên bach yr Wyddfa am fywoliaeth.

Merch o Nant Peris yw Helen Mai Jones, ond sydd bellach yn briod ac yn byw ar fferm Gwastadannas yn Nant Gwynant. Ffermio defaid mynydd (wrth gwrs!) yw prif waith y teulu, ac y mae eu tir yn ymestyn i gopa'r Wyddfa.

Pwy sy'n cyrraedd hanner ffordd i fyny'r mynydd yn rheolaidd, ond anaml iawn yn cyrraedd y copa? Alwena Jones o Lanrug sy'n cynnal busnes teuluol yn cadw Caffi Hanner Ffordd.

Dau arall sy'n cael sylw yn y gyfres yw Dewi Davies, Prif Warden Parc Cenedlaethol Eryri, fydd yn egluro'i waith a rôl y Parc yn gofalu am y mynydd; a Rob Johnson, aelod o Dim Achub Mynydd Llanberis, a hyfforddwr mynydda proffesiynol. Dilynir Rob ac aelodau eraill o'r tim i ddangos i'r gwylwyr yr amgylchiadau anodd a pheryglus a wynebir gan y gwirfoddolwyr tra'n achub aelodau o'r cyhoedd oddi ar lechweddau'r mynydd.

Yn ôl broliant y gyfres, mae yma “straeon o ymylon natur; o ymylon byd sy'n newid yn barhaus ond sydd wastad yn ddiddorol. Maent yn dadlennu amrywiol agweddau'r mynydd – yn greulon, yn garedig, yn brydferth a hudol. Prydferthwch a pheryglon bywyd ar un o fynyddoedd prysuraf y byd.”

Gwylwch y gyfres, (sy'n cael ei darlledu am wyth o'r gloch y nos, ac yn cychwyn ar 16eg o fis Chwefror) i gael golwg newydd ar fynydd sy'n rhan annatod o fro'r “Eco”.

Mwy o luniau ar dudalen 4.



ECO'r Wyddfa

RHIF 429
Chwefror 2015
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
 Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
 Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
 Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
 Llanrug (238495)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
 Rhian Elin George, Swn yr Engau,
 Brynrefail (01286) 872306
 ebost hysbysebioneco@hahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
 Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
 Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
 Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
 (01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
 Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhianon Roberts,
 Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
 rhianonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
 Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
 Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
 Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
 Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid

dylunio graffeg
 07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2014

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Mawrth	Chwefror 15	Chwefror 27	Llanrug
Ebrill	Mawrth 15	Mawrth 27	Cwm y Glo

LLYTHYRAU

71 Ffordd Pentrepoeth, Treforys
 Abertawe SA6 6AE
 01792 792829
 ebost: alan.llwyd@googlemail.com

Annwyl Gyfeillion

Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar lyfr sy'n dwyn y teitl Gwlad o Gofebau, er fy mod hefyd yn ystyried ei law yn Colli'r Hogiau. Bwriad Gwlad o Gofebau yw edrych ar y Rhyfel Mawr o ongl wahanol. Er mai Gwlad o Gofebau yw teitl y gyfrol arfaethedig ar hyn o bryd, nid y cofebau eu hunain sy'n bwysig, ond y rhai a enwir arnynt. Pwy oedd y miloedd hyn o fechgyn a enwir ar y cofebau? A dyna sy'n wahanol yn y gyfrol hon. Amlinellir y cefndir hanesyddol, yn naturiol, ond nid ar hanes y rhyfel ei hun nac ar hanes y gwahanol frwydrau y mae'r pwyslais, ond, yn hytrach, ar y bechgyn a gymerodd ran yn yr ymladd. Ar hanesion personol y mae prif bwyslais y gyfrol, ac nid hanesion y bechgyn yn unig ychwaith. Mae'r bennod 'Ymgeledd Gwagedd y Groes' yn y gyfrol yn adrodd hanes y merched hynny o Gymru a fu'n gweini ar y cleifion ar y ffyrnt Gorllewinol a'r Ffyrnt Dwyreiniol, sef merched y Groes Goch.

Ar ôl cyflwyno hanes rhai o'r cofebau, yn fyr, adroddir hanes rhai o'r bechgyn a enwir arnynt, gan ganolbwyntio ar y straeon mwyaf diddorol, ond gan roi darlun cyffredinol o effaith y rhyfel ar deuluoedd Cymru ar yr un pryd. Dyfynnir o'u llythyrau a'u dyddiaduron. Dyfynnir englynion a cherddi coffa iddynt. Rhoir wyneb i'r enw, a thrwy adrodd hanes rhai unigolion, daw trasiedi'r rhyfel yn fyw. O safbwynt lluniau, bwriedir cynnwys ffotograffau gwreiddiol yn y llyfr yn ogystal â hen luniau o'r milwyr a'u teuluoedd, ac yn y blaen.

Bwriad y lythyr hwn yw apelio am ddeunydd. Os oes gennych lythyrau neu ddyddiaduron gan rai a fu'n gwasanaethu mewn rhyw fodd neu'i gilydd yn y rhyfel, neu luniau ohonynt, neu'r ddau, byddwn yn ddiolchgar iawn ichi os cysylltwch â mi. Os nad ydych yn awyddus i ollwng gafael ar y deunydd gwreiddiol sydd yn eich meddiant, gallwch anfon llungopiau ataf neu drosglwyddo deunydd imi drwy gyfrwng fy nghyfeiriad ebost.

Hoffwn ddiolch ichi ymlaen llaw am eich cymorth a'ch cydweithrediad. Rhoir cydnabyddiaeth i bawb a roddodd ddeunydd imi yn y gyfrol.

Yn gywir iawn
 Alan Llwyd

Cynllun 'Cysylltu Bywydau'

Hoffwn drwy dudalen lythyrau eich papur bro dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun sydd ar waith yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau rhai o drigolion mwyaf bregus ein cymdeithas.

Fel rhan o gynllun 'Cysylltu Bywydau', mae rhai aelodau'r cyhoedd yn cynnig llety i unigolion gydag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl neu gorfforol. Fel sy'n cael ei gynnig trwy gynlluniau fel maethu plant a phobl ifanc ayb, mae hyfforddiant penodol a chymorth ariannol yn cael ei ddarparu i'r rheini sy'n ymrwymo ac yn cynnig cartref cysurus a diogel fel rhan o'r cynllun.

Mae'r cynllun yn sicrhau cymorth ychwanegol i rai o'n trigolion mwyaf bregus, ond gan wneud hynny mewn cartref teuluol lle maent yn teimlo'n hapus a chysurus. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu ymroddiad arbennig gan yr unigolyn hynny sy'n agor eu cartrefi, ond mae cymorth ar gael ar hyd y daith.

Fel rhan o'r broses, mae hyfforddiant trylwyr a chymorth arbennig yn cael ei ddarparu i unrhyw un sy'n dewis bod yn rhan o'r cynllun, gyda thaliad wythnosol yn cael ei ddarparu i bawb sy'n cymryd rhan.

Mae nifer o deuluoedd ar draws Ynys Môn a Gwynedd eisoes yn rhan o'r cynllun, a byddai swyddogion 'Cysylltu Bywydau' yn hapus iawn i drafod gydag unrhyw un fyddai â diddordeb dysgu mwy am y gwaith. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r tîm ar 01341 424 440 neu drwy e-bostio lleoli.oedolion@gwynedd.gov.uk

Yn gywir,

Y Cynghorydd Gareth Roberts,
 Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd Cyngor Gwynedd

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£50: Ann a Nicola Williams, er cof am Gwilym G. Williams, Llanddaniel Fab (gynt o Furiau Gwynion, Fachwen)

£20: I.G. Richards, 5 Tai Caradog, Deiniolen; Mrs Hannah M. Roberts, Tŷ'r ysgol, Dinorwig.

£10: Fred a Beth Owen, Garreg Wen, Llanberis; Eileen Williams, 10 Afon Rhos, Llanrug; Mr Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel.

£3: Gomer Davies, Tregarth.

Swŷn Yr Afon,
 3 Tower Way,
 Abergele,
 Conwy,
 LL22 7AY

Annwyl Olygydd,
 Fe hoffwn ddiolch o galon i'r cyfeillion a'm helpodd i werthu copïau o'm cyfrol 'englynion' yn ddiweddar ac, wrth gwrs, i bawb â'i prynodd. Bydd yr elw i gyd yn mynd i Hosbis Tŷ Gobaith, Conwy, a'r cyfanswm ar hyn o bryd (Ionawr 3ydd) yw £1,205.
 Diolch.

John Ffrancon Griffith,
 Abergele



GWYNANT
PIERCE

CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL

— Uned 1 —
Fferm Bryn Afon
LLANRUG
(01286) 674183
07889899901

Parhad LLYTHYRAU



Annwyl Olygydd,
Carwn dynnu sylw'ch darllenwyr at ddogfen o'r enw 'Dewiniaith' sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer Mudiad Meithrin dros y ddegawd nesaf. Cyhoeddir 'Dewiniaith' ar Ionawr 20fed.

Mae cylch meithrin lleol yn bodoli mewn cannoedd o bentrefi, trefi a dinasoedd Cymru ac yn ganolbwynt pwysig i fywyd y gymuned wrth ddarparu gofal ac addysg o safon drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymfalchiwn yn y ffaith mai dyma ddechrau taith ieithyddol i nifer o blant o deuluoedd ble na siaredir y Gymraeg. Cyn bwysiced yw'r ffaith fod y cylch yn darparu profiadau hwyliog o chwarae a dysgu i filoedd o blant bach Cymru. Os ydych am ddarganfod ble mae cylch yn eich ardal chi, ewch i 'Chwilio am Ofal Plant' ar ein gwefan (cyfeiriad isod). Fel mudiad, byddem yn hynod falch o gael clywed barn pobl Cymru am gynnwys 'Dewiniaith'. Mae modd lawrlwytho copi o wefan Mudiad Meithrin (www.meithrin.cymru) neu gael copi caled drwy ffonio 01970 639639. Os yn trydar neu ar Facebook, ewch i @MudiadMeithrin neu www.facebook.com/MudiadMeithrin.

Yn gywir,

Rhiannon Lloyd
Cadeirydd
Mudiad Meithrin

'Dewiniaith'

Gweledigaeth Mudiad Meithrin ar gyfer y 10 mlynedd nesaf
Ar risiau'r Senedd ym Mae Caerdydd dydd Mawrth), Ionawr yr 20fed 2015 am 1.00pm, yng nghwmni'r canlynol: Leslie Griffiths AC, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi; Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin; Keith Davies AC; Paul Davies AC; Aled Roberts AC a Simon Thomas AC meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin: 'Pwrpas y ddogfen 'Dewiniaith' yw cynnig cyfeiriad i waith pob un sydd ynghlwm â Mudiad Meithrin a chynnig arweiniad i'n staff cyflogedig. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth strategol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ac mae'n ffrwyth gwaith cynllunio strategol gan dim o staff y Mudiad.'

Diolch

Dymuna Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, Bethel, ddiolch yn ddiffuant i bawb am y cardiau a'r galwadau ffôn niferus a dderbyniodd yn dilyn y llawdriniaeth a gafodd ym mis Rhagfyr i gael pen-glin newydd. Gwerthfawroga ymweliadau ei gymdogion, ei gyfeillion a'i gydnabod ar ôl iddo ddychwelyd o Ysbyty Gobowen, a'r gofal ardderchog a gafodd, cyn ac ar ôl ei driniaeth, gan Dr Huw Gwilym a'r staff ym Meddygfa Waunfawr/Llanrug.

Diolch

Dymuna Seindorf Arian Deiniolen a Chôr Meibion Peris, ynghyd â grŵp Trio ddiolch o galon am y gefnogaeth a'r presenoldeb unwaith eto yn eu Cyngerdd Nadolig Blynyddol a gynhaliwyd ym Mynydd Gwefru, Llanberis, brynhawn Sul, Ragfyr 21ain 2014. Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad o £311.09 a wnaed yn ystod y cyngerdd tuag at Gronfa Ffrindiau Plas Penygwaith, Llanberis. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Yn ystod y mis aeth heibio....

- Cafwyd ar ddeall fod baner Jac yr Undeb i'w harddangos ar drwyddedau gyrru o eleni. Daeth storm o brotest o du'r Cymry am nad yw baner ein gwlad yn cael ei chynrychioli ar y drwydded. Cychwynnwyd petisiwn ar-lein i wrthod arddangos Jac ar drwyddedau o Gymru neu i gael baner Cymru wedi ei hymgorffori ym maner Jac yr Undeb. Bydd y petisiwn yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yn Llundain gan ein haelod seneddol. Yr hyn sy'n syndod yw na fu unrhyw fath o ymgynghoriad ynglŷn â'r penderfyniad. Gwrthod Jac yr Undeb yw'r unig ateb synhwyrol, oherwydd fe ddylem ymfalchio yn y ffaith nad yw Cymru'n cael ei chynrychioli ar faner sy'n parhau'n symbol o orthrwm ymerodraethol i gannoedd o filoedd o bobl led-led y byd.

- Derbyniodd trigolion Môn a Gwynedd daflen liwgar, sgleiniog (ddrud!) drwy'r post yn cyhoeddi bwriad y Grid Cenedlaethol i godi rhes arall o beilonau ar draws Ynys Môn er mwyn cysylltu'r Wylfa newydd â'r is-orsaf bresennol ym Mhentir. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad (drud!) yn 2012 i gael barn y boblogaeth leol. Defnyddio ceblau tanfor oedd dewis y mwyafrif. A dyma'r ymateb: "Gan i chi ddweud wrthym bod Afon Menai'n arbennig o sensitif, rydym wedi penderfynu rhoi'r ceblau o dan y ddaear yma..." a "Fe ddywedoch chi wrthym fod Afon Menai ac Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn yn llefydd arbennig..." Ac meddai Martin Kinsey, Uwch Reolwr y Prosiect, "Rydym wedi gwrando hefyd ar yr holl ymateb a gawsom gan aelodau'r cyhoedd.." Yn anffodus, anghofiwyd ychwanegu'r un cymal pwysig hwn: "... a phenderfynwyd eu hanwybyddu."

- Darlledwyd y ddrama gyfres 'Lan a Lawr' ar S4C. Mae wedi ei lleoli'n rhannol yn yr ardal o amgylch Llanberis, a chafodd "Eco'r Wyddfa" sylw gan un o'r cymeriadau yn y bennod gyntaf. Ond awgrym a gafwyd mai rhyw bapur hel clecs ydi ein papur bro, a chyfeirio ato'n union fel y byddid yn sôn am


yr hen 'News of the World' ers talwm. Mae mwy o sylwedd ynddo na hynny siawns!

- Unwaith eto – ac y mae'n ddigwyddiad llawer rhy aml bellach – galwyd Tim Achub Mynydd Llanberis i gynorthwyo cerddwr oedd wedi mentro ar Grib Goch heb unrhyw offer angenrheidiol, a hynny dan amgylchiadau echrydus. Lwc yn unig, yn ôl llefarydd ar ran y Tim Achub, oedd i'r cerddwr gael ei ddarganfod, ac yntau eisoes yn dioddef o effeithiau oerfel. Ychydig oriau yn ddiweddarach, a byddai'r tim yn hebrwng corff oddi ar y mynydd. Pwy yn ei lawn bwyll fyddai'n penderfynu neidio oddi ar long yng nghanol Môr Iwerydd a gobeithio medru nofio i'r lan? Mae mentro ar dywydd echrydus i gerdded cribau Eryri heb unrhyw offer diogelwch yr un mor hurt. Mae hefyd yn rhoi bywyd yr achubwyr gwirfoddol mewn perygl.

- Yn dilyn yr adroddiad fis Rhagfyr diwethaf am y bygythiad i gau llyfrgelloedd yng Ngwynedd, trefnodd trigolion Dyffryn Nantlle brotest yn eu llyfrgell leol i ddangos pa mor bwysig a hanfodol yw'r llyfrgell fel sefydliad yn eu bywydau. Er i'r "Eco" roi sylw ar y dudalen flaen i'r bygythiad i lyfrgelloedd Deiniolen a Llanberis, ni dderbyniwyd unrhyw sylw – o blaid nac yn erbyn – gan unrhyw un o'r aelodau sy'n defnyddio'r ddwy lyfrgell.

- Achoswyd storm o brotest pan benderfynodd Cartrefi Cymunedol Gwynedd hysbysebu am rai o'u prifswyddi heb ofyn am y Gymraeg fel sgil hanfodol. Mae sefydliadau a mudiadau megis Plaid Cymru, Dyfodol i'r Iaith, Cymdeithas yr Iaith a Chylch yr Iaith wedi galw ar CCG i ail-gysidro. Mae Comisiynydd yr Iaith hefyd wedi datgan "Pan fo sefydliad yn mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg, mae disgwyl iddo lynu ato." Os anwybyddir yr egwyddor sylfaenol o weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg, y perygl yw bydd cyrff eraill, llai cefnogol i'r iaith, yn defnyddio'r enghraifft hon fel esgus hwylus i anwybyddu unrhyw bolisi iaith sydd ganddynt.

“Y Mynydd”



Alwena Jones

Dewi Davies

Helen Mai Jones

Rob Johnson

Steff Owen

Diolch Dymuna Hari ac Elen Ifans ddiolch yn fawr iawn am y rhoddion hael a gawsant dros y Nadolig gan drigolion eu rownd papur newydd.

Cydymdeimlo Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar y 1af o Ionawr, bu farw Nancy Williams, Rhoslyn, 2 Stad y Rhos, yn 90 mlwydd oed. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Diolch Dymuna Eluned, John Elwyn a theulu y ddiweddar Nancy Williams, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn.

Diolch am yr holl gardiau, y rhoddion hael tuag at Diabetes UK Cymru, y galwadau ffôn a'r ymweliadau lu yn ystod yr amser trist ac anodd hwn.

Diolch i'r gofawyr cartref, meddygon a nyrsys meddygfa Bron Seiont, staff Plas Pengwaith am eu gofal annwyl o'u mam, hefyd staff Ysbyty Gwynedd a roddodd ofal arbennig iddi yn y dyddiau diwethaf.

Diolch i'r Parchedig Marcus Robinson a'r Parchedig How Powell-Davies am eu gwasanaeth ac i Mrs Glenys Griffith yr organyddes. Yn olaf diolch i Dylan Griffith am ei drefniadau trylwyr.

Cronfa Mynwent Eglwys Llanddeiniolen 2014

Mae costau cynnal a chadw Mynwent y Plwyf yn codi yn flynyddol ac rydym yn gwbl ddbynnol ar gyfraniadau fel yr isod. Os oes gennych fedd y teulu yn y Fynwent buasem yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad

trwy law y Trysorydd; Mr Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel, Caernarfon LL55 3AA. Sieciau yn daladwy i 'Cronfa Mynwent Llanddeiniolen'. Byddwn yn cydnabod pob cyfraniad.

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniad am y flwyddyn 2014:

£100: Mrs C.A. Lowe, Henryd, Conwy; £100: Gareth Jones a Dylan Edwards, 3 Bro Deiniol, Deiniolen; £100: Mr R.A. Jones, Rhandir Mwyn, Penrhos, Bangor; £75: Di-enw; £50: R.I. Thomas, Buarthau, Llanrug; £50: Pricilla Ann Williams, Cilgwyn, Bethel; £40: Mrs Meira Griffith, Crud yr Awen, Penisarwaun; £30: Valerie Owen, Margaret a Jennifer, Trefyn, Rhoslan Estate, Bethel; £25: Mr a Mrs Arfon Hughes, Tŷ Cerrig, Garndolbenmaen; £25: Alan a Brenda Jones, Llanwnda; £25: Mr Glyn Richards, 5 Tai Caradog, Deiniolen; £20: David Gwyrfa Jones, Old Colwyn; £20: Mrs Ceridwen Jones / Mr Stanley Roberts, Eryri, Llanrug; £20: Mr a Mrs J.M. Griffith, Llwyn Eithin, Bethel; £20: Mrs Alice Jones, 15 Bro Rhos, Bethel; £20: Mr a Mrs Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel; £20: Mr a Mrs Huw P. Jones, 11 Stad Eryri, Bethel; £20: Mr a Mrs John Evans, Pen Parc, Bethel; £10: Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach, Bethel; £10: Ieuan Ellis Jones, Hendre Parc, Caernarfon; £10: Mrs Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas; £10: Mrs Marjorie Roberts, Tŷ Newydd, Bethel; £10: Mr a Mrs Clifford Thomas, 68 Stryd Bangor, Y Felinheli; £10: Mr a Mrs Danny Humphries, Is Helen, Bethel; £10: Mr a Mrs O.P. Hughes, 13 Council Houses, Llanbedrgoch.

Merched y Wawr

Yn y Felin, Pontrug, y bu i'r gangen gyfarfod i ddathlu'r Nadolig ar Ragfyr 10fed. Croesawyd pawb gan Mair Price, y llywydd, ac wedi'r gwledda yr oedd Mair wedi trefnu dau gwis i ni. Mawr fu'r dyfalu. Y swyddogion oedd wedi rhoi y rafflau, a'r enillwyr oedd Bet, Eryl a Falmal. Yr oedd neges y Llywydd Cenedlaethol, Meryl Davies, ar gael i'w ddarlenn. Bydd Cwrs Crefft y Gogledd yn cael ei gynnal ar 24ain o Ionawr, 2015, os am fwy o fanylion, cysylltwch gyda Rita.

Yn wahanol i'r arfer cynhaliwyd ein cyfarfod fis Ionawr yn Salon Elaine yn Llanrug. Croesawodd y llywydd, Mair Price, nifer dda iawn o'n haelodau a drodd allan ar noson aeafol. Derbyniwyd croeso gwresog gan Gemma, Elaine a staff y salon, a chafwyd ychydig o hanes o sut cychwynnodd y busnes bedwar deg pump o flynyddoedd yn ôl gan Gemma. Cawsom wedyn grwydro o ystafell i ystafell yn y salon foethus a chyfarfod a thrin problemau gyda'r arbenigwyr ym maes harddwch a thrin gwallt. Mwynhaodd Anne Elis gael coluro ei hwyneb. Yn ystod y noson cawsom wledd yn y lluniaeth oedd wedi ei drefnu

ar ein cyfer. Nora enillodd y raffl oedd wedi ei roi gan Gemma. Anne Elis gynigiodd air o ddiolch am noson bleserus dros ben. Darllenodd Mair lythyr a dderbyniwyd gan Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, yn diolch am gefnogaeth a charedigrwydd yr aelodau tuag atynt fel teulu yn dilyn damwain Gwion Dafydd, ei hŵyr. Llongyfarchwyd Margaret Druce ar ddod yn nain i Enlli - ei hwyres gyntaf. Cydymdeimlwyd gyda Jen yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yng nghyfraith.

Cynigiodd chwe aelod ffurfio tîm ar gyfer y Bowlïo Deg ym mharc Glasfryn. Soniwyd am ginio'r Llywydd Cenedlaethol ar Ebrill 18fed yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Cysylltwch gyda Rita i gael y manylion llawn. Gan fod y gangen yn dathlu ei phen-blwydd yn 40ain eleni, gofynnir yn garedig i aelodau presennol a chyn aelodau chwilio am luniau ac atgofion y gangen a'u rhoi i Rita neu aelodau o'r pwyllgor. Bydd ein cyfarfod nesaf ar 11eg o Chwefror yn Festri'r Cysegr am 7.30 pan ddisgwyliwn Mr John Grisdale i sôn am Dim Achub Mynydd Llanberis.

SWYDDFA POST BETHEL

Ffôn (01248) 670261

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.

Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

LLUN-SADWRN
5.30am-7.30pm
DYDD SUL
5.30am-3pm

DODDREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft


PRISIAU CYSTADLEUOL

Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040



dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.

Ffôn: 870580

W

Yr Eglwys Bresbyteraidd
Oedfa Nadolig Dathlwyd yr ŵyl gyda gwasanaeth brynhawn Sul, Rhagfyr 14eg. Roedd cynulliad da wedi dod ynghyd a chymerwyd rhan gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Huw Fon Roberts, Dwynwen Williams, Dilys Evans a Marian Edwards, Pat Jones a Carol Houston, Dafydd Ellis, Robert John Williams ac Irfon Ellis a Nia George. Cafwyd myfyrdod ar yr Ŵyl gan y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson. Ymunwyd i ganu nifer o garolau cynulleidfaoel. Trefnwyd y gwasanaeth a llywyddwyd gan Lowri Prys Roberts. Gwnaed casgliad arbennig tuag at Gymorth Cristnogol. Yn dilyn, mwynhaodd pawb luniaeth Nadoligaidd ym Mwyty Caban.
Oedfa Gŵyl Ystwyll
Arweiniwyd mewn oedfa i ddathlu Gŵyl Ystwyll nos Sul, Ionawr 11eg, gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen. Cafwyd oedfa fendithiol dan ei arweiniad.

- Oedfaon Chwefror am 5.30 yr hwyr**
 - 1: Parch Marcus Robinson, (Gweinidog)
 - 15: Parch Geraint Roberts, Porthaethwy
 - 22: Parch Trefor Jones, Caernarfon

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd.

Ffôn: (872133)

W

Llwyddiant Llongyfarchiadau Mawr i Ioan Benjamin Bean, Bwthyn Isaf, ar basio Gradd 1 Bariton gyda Rhagoriaeth. Da iawn ti a dal ati. Diolch i Gavin Saynor am ei hyfforddi.
Llongyfarchiadau hefyd i Elliw Haf Owen, 66 Pentre Helen, ar basio ei gradd cyntaf ar y piano, da iawn chdi.
Diolchiadau Hoffai Iona Richards, 5 Tai Caradog, ddiolch am y cardiau, rhoddion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar, diolch o galon.
Dymuna Mrs Beryl Griffiths 5 Maes Gwylfa, ddiolch o waelod calon am y llu cardiau ac anrhegion Nadolig a dderbyniodd gan ei theulu, ffrindiau a gofawyr a diolch am eu haelioni. Blwyddyn newydd dda iddynt oll.
Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen Mae pwyllgor yr Eisteddfod yn falch o gyhoeddi fod pwyllgor newydd brwdfrydig wedi ei sefydlu a bydd eisteddfod yn cael ei chynnal eleni yn ystod mis Hydref. Mwy o newyddion i ddilyn yn y misoedd nesaf.

Clirio Coed Cegin Arthur.

Mae rhan helaeth o'r goedwig o amgylch hen ffynnon Cegin Arthur wedi ei chlrrio ddiwedd y llynedd, a phentyrrau o goed yn aros i gael eu cludo oddi yno i'r farchnad. Nid ers cryn dipyn o flynyddoedd y gwelwyd cymaint o dir agored ar y tir corsiog hwn.



Llyfr y Mis

Mae hunangofiant Zonia Bowen o Gaeathro, 'Dy bobl di fydd fy mhobl i', wedi'i ddewis fel 'Llyfr y Mis' ar gyfer Chwefror eleni.

Mae Mrs Bowen yn weddw i'r cyn-archdderwydd Geraint Bowen, ac yn y gyfrol mae'n olrhain ei siwrne drwy fywyd o'i phlentyndod yn Swydd Efrog hyd at ei blynnyddoedd hŷn yn Arfon. Ar y ffordd mae'n sôn, ymysg pethau eraill, am ei bywyd fel myfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor yn ystod yr Ail Ryfel Byd a sut yr aeth ati i ddysgu Cymraeg; am ei rôl allweddol wrth sefydlu'r mudiad Merched y Wawr yn y Parc ger y Bala yn 1967; am sawl menter ac ymgyrch ddadleuol arall y bu'n chwarae rhan ynddynt, ac am ei phrofiadau drwy ei hoes fel un ddigrefydd yn Lloegr ac yng Nghymru.

Mae'r llyfr yn cael ei gyhoeddi gan Y Lolfa, sy'n ei ddisgrifio fel 'Perl o gyfrol gan gymeriad arbennig ac unigryw', ac meddai Bethan Gwanas: 'Wel, am chwa o awyr iach. Gwych!'.

Bydd y gyfrol yn cael ei lansio yn y siop Palas Print yng Nghaernarfon am hanner dydd, dydd Sadwrn 7fed Chwefror. Bydd paned a chacen i'w cael ac adloniant gan rai o wyrion Zonia, sef y triawd gwerin Plu. Croeso cynnes i bawb.

Gwasanaeth Nadolig Caeathro Cafwyd

.gwasanaeth Nadolig arbennig eto eleni yng Nghapel Caeathro

ar nos Sul, Rhagfyr 21ain dan ofal y Parchedig Marcus Robinson. Daeth nifer fawr o gymdogion a ffrindiau ynghyd i ddathlu Gŵyl y Geni. Canodd Anna, Tomos, Begw a Rosie ddwy garol fywiog, a chafwyd deuawd hyfryd gan Betsan a Martha-'Anfonaf Angel' gyda Iona Ceiriog yn cyfeilio. Bu Luned, Mari, Elan, Lowri, Owain, Dafydd, Osian a Gwion yn adrodd a darllen a chafwyd cefnogaeth yr oedolion hefyd sef Nia, Alwyn, Bethan, Dafydd, Dewi a Marian. Mwynhaodd bawb baned a mins pei ar y diwedd.

Rhwng y gwasanaeth a'r canu carolau o amgylch y goeden Nadolig ar y nos Lun, dan arweiniad Band Pres Llanrug, casglwyd £200 tuag at fudiad 'Achub Y Plant'. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu lac a dwy afr i bentref yn y Trydydd Byd.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Tynfa Mis Rhagfyr 2014:

1af – O. Williams, 19 Rhes Glangwna; 2il – Sheila Liptrot, Lynn Lea; 3ydd – Nan Huws-Roberts, 10 Erw Wen; 4ydd – V. ac Y. Jones, Y Gilfach.

Viv Morgan, Tyddyn Uchaf; John Morris, 7 Bryn y Gof; Brynle a Dilys Griffiths, Delfryn; Eric a Luned Roberts, Graig Lwyd; Gwenno Bebb, Bryn Mair; Cadwaladr Evans, Waunfawr; Mr a Mrs G Jones, Tremallt; Hannah Hughes, Llyn Gele; Pepi Everitt, 21 Rhes

Glangwna; Laura Griffiths, Rhanna, Stad Glandwr.

Gŵyl Nadolig Cymdeithas Caeathro

Penderfynwyd eleni i drefnu un achlysur mawr i gynnwys Ffair Grefftau, groto Siôn Corn, lluniaeth poeth a chanu carolau o amgylch y goeden Nadolig ynghanol y pentref. Roedd y noson yn llwyddiant mawr a daeth gwefr i'r canu ar noson serog, dawel. Diolch i'r canlynol am gyfrannu gwobrau raffl: Coffi Poblado, Clwb Merched Caeathro, Picamics a Petals, Crefftau Tomos, Cardiau Menna, Crefftau Cofi, Gwynedd Gifts, Crefftau Cnau, Sioned Glyn, Eboni ac Eifori, Dafydd Em y ffotograffydd, Tŷ Blodau a nifer o garedigion y pentref.

Ail sefydlu yr Ysgol Sul

Am resymau ymarferol ni fu Ysgol Sul yng Nghapel Caeathro am ychydig o flynyddoedd. Erbyn hyn mae'r Gweinidog a'r swyddogion yn credu bod cyfle i archwilio'r posibilrwydd o ail sefydlu addysg Gristnogol i blant yng Nghaeathro a'r cylch - Ysgol Sul neu Glwb Iesu. Y cam cyntaf yw ceisio darganfod nifer digonol o deuluoedd ac felly arweinwyd i blant 4 i 11 oed. Mae'r adeilad ac adnoddau eraill gennym yn barod. Diolch

i Gwenno Bebb, Bryn Mair (669207), a Ceri Ann, 6 Erw Wen (669207) am wirfoddoli fel cysylltwyr. Gofynnir i bawb â phlant ifanc yn y teulu i ystyried yn ofalus ddyfodol crefyddol y genhedlaeth nesaf.

Gwerthfawrogiad

Yn noson gymdeithasol y pentref ddiwedd 2014 cyflwynwyd anrheg i Clive James i ddatgan gwerthfawrogiad trigolion y pentref o'i gyfraniad nodedig i'r Gymdeithas Cae Chwarae dros gyfnod o ddeg mlynedd a'r hugain. Bu'n hynod o egniol a gweithgar fel Llywydd y Gymdeithas ac mae'n dyled yn fawr iddo.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Eryl, Gwenno a'r plant, Bryn Mair, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli tad Eryl.

Llongyfarchiadau

Dymunwn yn dda i Owie Williams, 19 Teras Glan Gwna, sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 80oed yn ddiweddar.

Tynfamis Ionawr

Dyma restr enillwyr y mis: £40: Mathew Jones, Llecyn Clyd (28); £25: Margaret Hemsworth, The Barn (7); £15: T. a M. Evans, Plas Treflan (72); £5: i rhif (55) Bron Gwna (dim enw ar gael).

Gwasanaethau'r Capel

Chwefror 1af: Y Parch Marcus Robinson am 2 o'r gloch (gweinyddir y cymun)

Chwefror 15ed: Y Parch Trefor Jones, Caernarfon am 2 o'r gloch

Llywydd y mis a'r organyddes fydd Deiniol Hughes a Iona Ceiriog.

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS SELSIG CARTRE CIGOEDD PAROD I'W BWYTA ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST

MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyd

TM JONES

SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD

SYNUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter) CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866 thomasmeredydd@btinternet.com

Diolch Dymuna Hannah, Tŷ'r Ysgol, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd ati yn dilyn y ddamwain a gafodd yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r gwasanaeth ambiwlans a'r uned damweiniau yn Ysbyty Gwynedd a staff Ysbyty Eryri. Diolch o galon am y gofal.

Blwyddyn Newydd Mae yn anodd credu ei bod yn ddechrau blwyddyn unwaith eto ac, ar ddechrau 2015, fe garwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr Eco. Rhaid cofio am y rhai na fu blwyddyn 2014 yn rhy garedig iddynt, gan obeithio yn arw y gallaf ddymuno blwyddyn llawer gwell iddynt eleni. Ar ddechrau blwyddyn fel hyn mae llawer o bethau yn dod i'r cof. Meddwl am y rhai sydd wedi ein gadael, a rhai sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi oherwydd gwahanol resymau, ac yn cartrefu mewn cartrefi preswyl. Ple bynnag yr ydych cared fel ardal ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chwi.

Marwolaeth Mae colledion wedi dod â thristwch i'r ardal unwaith eto. Ar yr ugeinfed o Ragfyr daeth y newydd trist am farwolaeth Stanley Jones, Ivy Cottage gynt, a oedd wedi cartrefu yng Nghaerdydd ers blynnyddoedd. Mab y diweddar Mr a Mrs William Jones ynghyd â'i ddiweddar frodyr a chwiorydd, sef Stanley Robert John, Kathleen a Betty Wyn, ac

yn ddiweddar frawd i Eunice ym Methel, Emyr yn Mangor ac Eilian yn Belgrade. Yr oedd Stanley yn 84 mlwydd oed. Bu iddo wneud yn ardderchog mewn Mathemateg yn Ysgol Ramadeg Brynrefail ac, ar ôl gadael yr ysgol, aeth i'r Awyrlu lle, cyn iddo adael, yr oedd yn dal y swydd o beilot mordwyo (Navigator Pilot Officer).

Ar ôl dod o'r Awyrlu aeth i weithio hefo'r BBC yng Nghaerdydd. Yn 1954 aeth i Lundain i uned arbrosi. Ef oedd y person cyntaf yn Llundain i wneud gwasanaeth tynnu lluniau efo radio camera o'r awyr. Bu i Stanley briodi â Gwyneth, merch y diweddar Mr a Mrs Owen Jones, Brynrefail, a ganwyd iddynt bedwar plentyn, dau fab a dwy ferch. Roedd un o'r meibion a'i wraig yn byw efo hwy yn y cartref.

Yr oedd yn Brif Reolwr Peirianyddol yn y BBC ac wedi hynny aeth i weithio ar ei liwt ei hun lle bu yn llwyddiannus iawn.

Bu ei angladd ar Ionawr 8fed ac roedd y capel yn orlawn a'r gwasanaeth dan ofal y Parchedig Ddoctor R. Alun Evans ac yn canu yn y gwasanaeth yr oedd Caryl Parry Jones. Cafodd ei gorff ei amlosgi yn Amlogsgfa Caerdydd.

Mae ein cydymdeimlad yn fawr hefo Gwyneth a'r plant, ac hefyd hefo Eunice, Emyr ac Eilian, gobeithio y bydd i chi

gael nerth oddi uchod yn ystod yr oriau a'r dyddiau tywyll yma. Mae gennych atgofion lu am y dyddiau da a gawsoch efo'ch gilydd ac fe fydd rhain yn help i chwi. Cofion ardal Dinorwig atoch fel teulu.

Newydd trist arall oedd am farwolaeth Ann Nolan. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan oedd plant yn gorfod gadael eu cartrefi yn Lerpwl daeth Margaret ac Ann Nolan, un yn 8 oed a'r llall yn 6, i gartrefu dros y rhyfel hefo Mr a Mrs Owen Llewelyn Jones, Maes Gwyn, lle y cawsant gartref ardderchog. Ar ddiwedd y Rhyfel aeth y ddwy adres yn ôl i Lerpwl ond yn ei byw ni allai Ann gartrefu yno bellach ac yma yn Ninorwig oedd ei chalon. Y diwedd fu iddi ddod yn ôl i Maes Gwyn i gartrefu a daeth yn fuan iawn i fod yn un o blant yr ardal.

Bu iddi briodi yng Nghapel MC Dinorwig, lle yr oedd wedi arfer ei fynychu am flynyddoedd. Ganwyd iddynt dri o hogiau ac yr oeddynt yn byw yn Rhos-on-Sea.

Yn ystod y ddwy flynedd olaf fe fu raid i Ann fod mewn cadair olwyn. Cafodd y gwasanaeth claddu ei gynnal yn yr Amlogsgfa ar yr 8fed o Ionawr ym Mae Colwyn. Buasai Ann wedi bod yn 81 ar 9 Ionawr.

Yr ydym fel ardal yn cydymdeimlo yn fawr â'i gŵr a'r tri mab, sef David, Colin a Mark ac yn dymuno iddynt

hwythau gael nerth i ddal y golled. Mae y mab ieuengaf yn byw ym mro yr Eco, ym Methel. Cofiwch am y dyddiau melys a'r atgofion hyfryd.

Yn yr Ysbyty Drwg gennym ddeall fod Mrs Megan Morris, Minffordd, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, ac yn disgwyl am gael ei symud i Gartref Preswyl. Buasai yn hoffi cael mynd i Bryn Ffynnon, Bangor, lle mae ei chwaer yn cartrefu ond ar hyn o bryd nid oes lle yno.

Mae Mrs Morris yn 99mlwydd oed ac 'os Duw â'i myn' bydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 yng Ngorffennaf ac wedi byw, i fyny i'r mis olaf, ar ei phen ei hun gyda Eurwyn, y mab, yn galw i gadw llygad arni. Gobeithio y cewch eich dymuniad yn reit fuan Mrs Morris ac y cewch gartrefu hefo Alice unwaith eto, a brysiwch wella.

Anfonwn fel ardal ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn ein cofion at Mrs Alice Griffiths a Mrs Megan Morris, a gobeithio i'r ddwy fwynhau y gwyliau gystal ag yr oedd yn bosibl.

Y Tywydd Erbyn hyn y mae'r gaeaf wedi cau amdanom, y tywydd yn oer a'r gwynt yn rhuo braidd ar y mwyaf. Mae'n trio bwrw dipyn o eira yma heddiw, ond gobeithio na fydd yn rhy ddrwg arnom ac y gallwn fynd a dod heb rhyw lawer o broblemau.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Blodau Racca
PENISARWAUN

Rhodd o'r Galon Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Rhif Ffôn
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWGS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Cyfeillion Plas Pengwaith

Enillwyd y Bêl Bonws am fis Tachwedd gan Mairwen Baylis, ac am fis Rhagfyr gan Eric Baylis. Teulu lwcus!

Diolchiadau Dymuna Fred a Beth, Garreg Wen, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd Fred tra yn yr Ysbyty yn Lerpwl a wedyn gartref. Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Gymdeithas Undebol Ar nos Fawrth, Rhagfyr y 9fed, cafwyd noson ardderchog o Garolau a Darlleniadau yng nghwmni'r Parchedig John Pritchard a Mrs Gwenno Pritchard. Gwenno oedd hefyd yn cyfeilio, ac arwain y Carolau yn ei ffordd fedrus, hamddenol ei hun.

Diolch i'r ddau am noson hyfryd. Cafwyd paned, sgwrs a mins pei ar y diwedd.

Nos Fawrth, Ionawr 13eg, cawsom gwmni Miss Manon Lloyd Williams, sydd yn gweithio yn adran SAFONAU MASNACH Cyngor Gwynedd.

Cawsom noson ardderchog, hwylus, yn llawn gwybodaeth a chynghorion i'n harbed rhag cael ein twyllo gan "SGAMS" ar y ffôn, drwy'r Post neu y "COLD CALLERS" sydd yn dod i'ch drws ac yn dweud fod rhywbeth angen ei drwsio ar eich tŷ a.y.b. Hefyd cael eich twyllo drwy brynu nwyddau sydd ddim beth maent i fod.

Diolch Manon am noson hamddenol, braf, a oedd o fudd mawr i ni i gyd!

Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Mattie Hughes.

Cafwyd paned a sgwrs ar ddiwedd y noson.

Papurau Newydd Ganrif yn ôl

Tydi genod heddiw ddim fel y buon nhw!!!

LLANBERIS---YDINESYDD CYMRAEG 3/2/1915

LLANBERIS. Lladrata

Coed. Gwrandawyd achos yn Ynadlys Sirol Caernarfon, ddydd Sadwrn, ymha un y cyhuddid Caroline **** a Lizzie ****, Goodman Street, Llanberis, o niweidio coeden onnen berthynol i Gwmni Llechi Llanberis ar Ionawr 14. Sylwodd Mr M.E. Nee, yr hwn a erlynai, fod cwynion parhaus ynghylch personau a dorrent y coed ar yr ystâd, ac er i nifer gael eu gwysio o flaen y llys, parha'r bobl i ddod yno, a gofynnai i'r cyhuddiedigion gael eu cosbi fel gwers i eraill. Tystiodd y Rhingyll Jones iddo dderbyn cwyn, ac aeth i'r lle a gwelodd y ddwy gyhuddedig gyda'r gorchwyl o lifio coeden onnen 12 modfedd o drwch a 28 troedfedd o uchder, ac wedi ei llifio yn saith darn; a rhoddasant bridd ar y boncyn i'w wneud i ymddangos yn hen doriad. Yr oedd rhybuddion wedi eu doddi ar y coed ochr y ffordd i'r perwyl y cosbid trespaswyr. Addefodd y cyhuddiedig y trosedd, a datganent eu gofid. -Dirwywyd hwy i 2s6c a'r costau, 2s6c am werthu'r goeden, a chostau cyfreithiol ychwanegol o 10s6c!

Cyngerdd Nadolig Mynydd Gwefru Yn y cyngerdd blyneddol gyda Seindorf Arian Deiniolen, Côr Meibion Dyffryn Peris a Trio, fe wnaed casgliad o £311. Bydd yr arian yn mynd tuag at elusennau lleol. Diolch am eich cefnogaeth.

Oedfaon Sul Capel Coch - CHWEFROR

1af: 10yb a 5yh, Mr Andrew Settatree, Caeathro
8fed: 10yb Y Gweinidog, 5yh Oedfa MOLI
15fed: 10yb Parchedig W.R. Williams, 5yh Parchedig Megan Williams
22ain: 10.30yb Oedfa Deulu.
DIM OEDFA YN YR HWYR

Dechrau Blwyddyn

Mae'r Nadolig wedi'i ddathlu
A dydd Calan - ond a fu,
cyfnod defod addunedu
Yw mis Ianws oer a'i ru...

Cyfnod amser i fyfyrion
Am ein natur yn y byd -
'r hyn a gafwyd - a gobeithio
blwyddyn newydd dda o hyd.

Drwy y cyfan, digyfnawid
ydyw amser maith y rhod,
hwn sy'n aros - ni sy'n newid
megis diwrnod yw ein bod.

Nawr o gopa bryn 'r hen bobol
un addewid sydd o werth
Cofio'r enedigaeth wyrthiol
Cofio'r Gair ar greigiau serth!

Ianws - Duw Rhufeinig - dau ben ganddo - un i edrych yn ôl
a'r llall i graffu yn fyfyrion i'r dyfodol. O'r enw hwn y cawsom yr
enw Ionawr ar y mis. Janus yw yn Saesneg, a'r un fath yn yr iaith
honno - January.

Norman Closs

Cyfeillion Plas Pengwaith.

Yn dilyn y cyngerdd Nadolig yn y Mynydd Gwefru, casglwyd £311 tuag at y Cyfeillion. Gyda diolch i bawb am eu haelioni.

Dymunwn ar ddechrau blwyddyn arall, ddiolch i bawb ym mhentref Llanberis a'r ardal oddi amgylch am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth gydol 2014.

YSWIRIANT FUW




Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.
Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935



Dau lythyr diddorol.

Wnes i erioed brynu copi o'r papur dyddiol hwnnw y Daily Mail. A does arna'i ddim angen bysedd un llaw i gyfrif sawl gwaith y darllenais y papur hwnnw chwaith. Ddechrau mis Ionawr daeth llythyr gan y Daily Mail i'r tŷ acw: ond brysiaf i ddweud nad golygydd y papur hwnnw a'i hanfonodd ataf. Llythyr ydoedd wedi ei dorri allan o rifyn olaf y llynedd, gyda chyfeiriad ynddo at ardaloedd Bangor a Phentir. A phwy anfonodd y copi i mi? Wel, dwn i ddim. Er fod yr awdur – fo neu hi – yn dymuno'n dda i'r "Eco", ac yn tybio y byddai cynnwys y llythyr o ddiddordeb i ddarllenwyr yr "Eco" yn ardal Rhiwlas a Phentir, anghofiodd arwyddo'i (h)enw. Felly, diolch i chi am anfon y copi, a dyma rywfaint o wybodaeth.

Mae'n amlwg fod y Daily Mail yn gwahodd darllenwyr i anfon ymholiadau i rywun o'r enw Charles Legge sy'n eu didoli a'u tafoli. Mae wedyn yn gwahodd y darllenwyr i ateb yr ymholiadau. Y cwestiwn dan sylw ym mis Rhagfyr y llynedd oedd oes rhywun yn cofio cerdd yn cychwyn gyda'r llinellau: "Northumberland stands at the top of the tree, and Cumberland next with its hills you will see?"

Fyddai'r llinellau wedi golygu dim byd i mi ond daeth yr ateb i'r ymholiad gan wraig o Fôn, yn egluro mai gŵr o'r enw James Henry Cotton (1780-1862) oedd yr awdur; genedigol o Nantwich. Aeth ymlaen i adrodd sut y daeth yn Ddeon Cadeirlan Bangor ac yn flaenllaw ym maes addysg y cyfnod cynnar hwnnw. Sefydlodd Ysgol Sul yn yr Eglwys Gadeiriol yn 1810, ac yn ddiweddarach, ysgolion ym Mhentir, Y Faenol, dinas Bangor, Llanllechid a'r Gaerwen.

Ysgrifennodd y gerdd, sef 'The Tour of England' sy'n enwi'r deugain o siroedd Lloegr fel yr oeddent cyn newid ffiniau ac enwau, yn fodd o helpu plant i gofio'u henwau a rhyw nodwedd arbennig neu ffaith hanesyddol amdanynt. Yn ddiddorol, mae'n cynnwys Sir Fynwy fel rhan o Loegr. Wna'i mo'ch llethu drwy ddyfynnu'r holl gerdd hirfaith! Ond mae'n syndod meddwl fod plant bach ardal Pentir, ddwy ganrif yn ôl, yn cael eu dysgu i gofio siroedd Lloegr – a dim sôn am Gymru na'i siroedd!

Holi am Glan Alaw.

Daeth ymholiad gan Rhiannon Roberts (Gohebydd Caeathro) ynglŷn â'r Parch Richard Jones, Brynrefail: "Diddorol oedd darllen penillion y diweddar Barchedig Richard Alun Jones, Brynrefail, neu Glan Alaw wrth ei enw barddol, oherwydd ddwy flynedd yn ôl buom yn aros gyda perthynas iddo yn Plockton ger Ynys Skye yn yr Alban. Mae Miriam Drysdale yn arlunydd dyfrlliwi eithaf enwog ac yn un o ddisgynyddion Y Parch Richard Jones. Mae'n awyddus iawn i wybod mwy am ei fywyd. Cofiaf iddi ddweud bod ei wyres, Mary Phillips (neu May) wedi bod yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail a hefyd bod cysylltiadau yn Saron, Llanwnda.

Os oes unrhyw ddarllenydd yr Eco a gwybodaeth pellach am deulu a barddoniaeth y Parch Richard Jones buaswn yn dra diolchgar i glywed gennych."

Mae cyfeiriad Rhiannon i'w gael ar dudalen 2.

Bu'r Parch Richard Jones yn weinidog ym Mrynrefail am 34 o flynyddoedd: o 1884 hyd 1918. Cynhaliwyd cyfarfod i'w anrhegu ym mis Gorffennaf 1918, a Mrs Mary Thomas, aelod hynaf yr eglwys a gyflwynodd anerchiad hardd iddo (wedi ei ddylunio gan yr arlunydd Maurice Jones, Caernarfon) ar ran yr aelodau. Disgrifiwyd ef fel "dyn oedd wedi ennill safle urddasol drwy rym athrylith, ymroddiad ac ymgysgriad fel llenor, bardd, esboniwr, darlithydd, pregethwr a Christion."

Casglwyd gwaith yr awdur mewn cyfrol o'r enw "The Life and Speeches of the Very Reverend J.H.Cotton, Dean of Bangor and Rector of Llanllechyd, 1874"

Pryd yn union y sefydlwyd ysgol ym Mhentir? Rhaid troi unwaith yn rhagor at waith y diweddar Athro R.O.Roberts a'i bennodau cynhwysfawr ar hanes addysg a chrefydd yn ardaloedd Pentir a Rhiwlas (Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon 1997 a 1998). Mewn atebion i'r Esgob ym mlynnyddoedd 1801, 1811 ac 1814, does dim sôn am unrhyw addysgu ym Mhentir, ond erbyn 1817 roedd y Parch John Jones, un o ddau ficer ym Mangor yn honni "fod ysgol dda ym Mhentir yn cael ei chynnal drwy daliadau uniongyrchol". Roedd yr ysgol hon wedi ei sefydlu erbyn diwedd 1816 yn ôl dyddiadur y Parch J.H.Cotton, a'i bod yn ysgol ddyddiol, nid ysgol ar y Sul yn unig. Yn ei ddyddiaduron, mae'r Parch J.H.Cotton yn sôn am enethod o Bentir a genethod o ysgol newydd Y Faenol, yn cael eu hanfon i Fangor am wersi gwnio.

Mewn cyfarfod eglwysig ym Mangor yn 1825 roedd disgyblion Ysgol Pentir yn bresennol, ac o drefn y cyfarfod gellir gweld mai eglwysig oedd ffurf yr addysg. Cychwynwyd y cyfarfod gyda gweddi, a'r holl blant yn dilyn drwy adrodd Gweddi'r Arglwydd a chanu emyn. Holwyd hwy mewn Rhifyddiaeth. Yna darllenwyd pennod o'r Testament Newydd a'r plant yn cael eu holi am y cynnwys. Yna fe'u holwyd yn y Catecism ac am drefn a natur Gwasanaeth yr Eglwys.

Erbyn 1833 roedd tua hanner cant o blant yn Ysgol Pentir.

Un o'r disgyblion yn y cyfnod cynnar hwn oedd Erasmus Jones o Seion, Llanddeiniolen, un a fudodd yn ddiweddarach i'r America a dod yn weinidog yr Eglwys Fethodistaidd Esgobol. Trysorodd gydol ei oes gopi dwyieithog o'r Llyfr Gweddi Cyffredin a gafodd yn anrheg yn Ysgol Pentir yn 11 oed yn 1828.

Mae llawer mwy o'r hanes i'w gael yn y Trafodion – ac mae copiau 1997 a 1998 (a llawer mwy!) i'w cael am bris gostyngol yn Archifdy Caernarfon. Mynnwch eich copi i gael y stori yn llawn!

Pigion o 1920.

Hawdd iawn yw dilyn sgwarnogod tra'n chwilio am wybodaeth mewn ôl-rifynnau o bapurau newydd! A dyma rai o'r sgwarnogod a gododd eu pennau tra bum yn chwilio hen rifynnau o'r Caernarvon and Denbigh Herald am y flwyddyn 1920. Os oes gennych fwy o wybodaeth amdanynt, yna byddwn yn falch iawn pe baech yn cysylltu.

Ym mis Chwefror llongyfarchwyd Humphrey Griffith, gynt o'r Gerlan, Clwt y Bont, ar gael ei ethol yn 'under sheriff' a Llywodraethwr Carchar Utica yn yr Unol Daleithiau. Tybed sut y cyrhaeddodd llanc o Glwt y Bont y fath swydd ar draws yr Iwerydd?

Yn ystod yr un mis llongyfarchwyd Mr Creek, Bron Eryri, Llanberis ar ei gamp. A beth oedd y gamp honno? Rywbryd yn ystod y mis (a does dim cyfeiriad at y tywydd yn y pwt newyddion) cyrhaeddodd gopa'r Wyddfa. Does dim yn arbennig iawn yn hynny, meddech; ond camp Mr Creek oedd cyrraedd y copa am y tri ugain a dau ganfed tro! Yn anffodus, ni ddywedir ers faint o flynyddoedd y bu wrthi cyn cyflawni'r gamp.

Rywdro ar ddechrau'r flwyddyn daeth diwydiannwr o'r enw A.F.Sergeant o Halifax i'r fro a phrynu Melin Wen, Pontrug. Erbyn diwedd Gorffennaf roedd yn cynhyrchu pob math o grochenwaith yn y felin, ac yn defnyddio clai lleol yn y gwneuthuriad. Roedd hen feini melin yr adeilad yn cael eu defnyddio ganddo i falu'r clai yn fân.

Agorwyd crochendy yn y Felin Wen ychydig flynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd, felly mae'n amlwg na pharhaodd melin Mr Sergeant am lawer o flynyddoedd. Am faint o amser tybed y bu'n masnachu?

Enwau Bwlch Llanberis.

Daeth ymateb syfrdanol i'r hanes am enwau ym Mwlch Llanberis ganrif yn ôl. Mae fy niolch yn fawr i John Ellis, Nant Peris am drefnu i dri o ffermwyr a chysylltiadau â'r Nant ddod at ei gilydd i restru'r holl enwau rhwng Nant Peris a Phen Gorffwysfa, a chafwyd bron i ddau gant i gyd! Ac y mae'r cyfan ar hyn o bryd yn y broses o gael eu lleoli ar fap. Er gwybodaeth yn unig, dyma'r enwau: Bwlch Garw, Carreg Gwalch, Cwm Gwalch, Diffwys, Bwlch Moch, Clwt Teg Main, Clogwyn Geifr, Cymoedd gwynion, Cwm Garreg Wen, Yr Ysgar, Diffwys Creafol, Clogwyn mawr, Fon y Grib, Doman Goch, Bwlch Geifr, Llwybr Canol, Garn Cri, Adwy cwm, Post Ddu, Dalfod, Clogwyn Cwm, Cefn llechen, Braich Melyn, Clogwyn Gysfa, Clogwyn Tipia, Rhos Bach, Rhos fawr, Diffwys ddwr, Bryn hwch, Afon Gennog, Castell, Diffwys ddu, Gyrn Las, Gwtar fawr, Llwybr gwregys, Garnedd Ugain, Clogwyn Person, Crib y Ddysgl, Bwlch Nuoedd, Bwlch coch, Pinacles Crib Goch, Cwm lloiau, Pentre bach/gwynion, Bryn meirch, Pant Melyn, Chwarenog, Cwm Hetiau, Clogwyn station, Cwm Hir (Cwm glas bach), Simdde Sion, Clogwyn mawr Cwm Glas, Clogwyn hetar, Wal rhacca, Boncan Cwm, Bryn hel, Corlan Eban, Cae Garw, Bryn pryfaid, Gerddi, Cae Bristol, Cefn Bryn, Geufon, Esgeiriau, Castell Terfyn, Llechog, Bwlch Maen Llys, Clogwyn ysgwydd, Cwm Tyrlwyd (Padell Cwm), Cefn Garreg, Clogwyn Appy, Clogwyn brith, Maen Gwyn, Bôl Du,



Kenneth Griffith (Beudy Mawr, Nant Peris), William Owen Griffith (Lon Glai, Pontrug) a William Arthur Williams (Cefn, Bethel) yn cofnodi enwau Bwlch Llanberis.

Tryfan, Hafn, Y Gloesen, Maen Bugail, Rhiwiau, Clogwyn du, Clogwyn blaen coed, Buarth newydd, Llwybr blaen coed, Llwybr ysgair, Ben y graig, Clogwyn barcud, Yr ynys rhwng dwy afon, Waen gron, Cwm graenog, Cwm gwlanog, Ffynnon caerniau, Grofydd, Clogwyn hir, Bwlch garw, Bwlch Llechog, Yr Olau Fawr, Esgair Felen, Llwybr llusgo, Chwarel Horns, Clogwyn Mawr, Cwm Caerwyn, Bryn Du, Castell Graig, Clogwyn Jêl, Clogwyn Bryn Melyn, Yr Hicyn, Esgair maen Gwyn, Gromlech Hiddy, Bryn Clyna, Dinas Gromlech, Clogwyn y wenol, Pentis, Gwaith Owen Meinar, Rhigl Goch, Carreg wastad, Clogwyn Tyllau, Clogwyn Sgerfil, Llwybr Main, Llyn Cwn, Ponciau Bryn Bras, Bryn Maen Hir, Y Rhindda,

Braich llwyd, Cwm Nadroedd, Craig ddu, Allt Gwial, Ceunant Sgrifa, Llwybr Syth, Llech Llynog, Craig y Geifr, Esgair dderw, Pilar llwyd, Maes Gwyn, Cefn braich, Graigddu bach, Bryn Hafod, Wern Goed, Nant Cra, Carreg Clyw, Bryn Melyn, Pistyll Gwyn, Llain, Clogwyn Foty, Clogwyn Tarw, Clogwyn Llo, Llain Fudur, Bryn Goediog, Llain Fawr, Dalfod, Cae Perthi, Cae Pladur Ffowc, Beudy Marged Ifan, Dôl Ddyryus, Esgair lwyd, Esgair fawr, Ceunant Gyll, Dinas Gromlech, Corlan Geifr, Cae Gelli, Belan, Allt Frwyn, Ochr Sên, Clogwyn Iddew, Trosgwn, Esgair Ceunant, Ffoes Gam, Clogwyn yr Ordd, Cae Heulo, Wern Sarn, Gors Goch, Llawr Cae, Ddol Eithal, Cae Ceunant, Fron Rhedyn, Cae Rhos, Maes Gwyn, Mur Gwyn, Cae Drain,

Werwi, Gwndwn, Cae Tŷ Coch, Cae Siop, Cae Wal, Cae Hoedyn, Cae Berwi.

Dyna i chi gyfoeth o enwau. Gwir fod rhai yn enwau digon cyffredin, ond mae eraill yn creu chwilfrydedd. Pwy oedd Sion, Eban, Owen Meinar, Ffowc, Eithal (neu Ithel) a Marged Ifan a roes eu henwau i simdda, corlan, gwaith, dôl a beudy? A beth yw ystyr gysfa, nuoedd, sgerfil, tyrlwyd, werwi a clyna?

Ac er fod yma bron ddeucant o enwau, oes yna rai wedi eu colli?

Maes o law, y gobaith yw trosglwyddo'r holl enwau a'u lleoliadau i Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac i'r Ordnance Survey fel y cedwir cofnod o'r holl enwau gwerinol hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS
GWAIR GWELLT a HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn 07748692100 • (01286) 660254

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com



Dymuna Myra Turner, Collfryn, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn cael triniaeth ac ar ôl dod adref.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb ac fis Rhagfyr oedd: £30: Nan Huws Roberts, 10 Erw Wen, Caeathro; £20: Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant; £10: Alice Johnstone, 10 Tref Eilian.

Gŵyl y Nadolig Diolch eto eleni i drigolion y pentref am yr addurniadau lliwgar ddaeth â naws Nadolig yma a diolch i aelodau'r Clwb Ieuenctid am rannu cyfarchion y tymor drwy gerdyn i'n cartrefi.

Noswyl y Nadolig cynhaliwyd Gwasanaeth o gân a darlleniadau yn Eglwys y Waun. Diolch i Meleri Llwyd, Cae Rhos, am drefnu'r gwasanaeth, i'r talentau gymerodd ran ac i'r gynulleidfa am gefnogi. Gwnaed casgliad tuag at Tŷ Gobaith a chasglwyd cant pedwardeg pump o bunnoedd. Yr un amser cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yng

ngolau kannwyll yn Eglwys Betws Garmon.

Yn ystod gwasanaeth boreol yn Eglwys y Waun cafwyd stori a neges Gŵyl y Nadolig drwy ddrama fach ddiddorol gan aelodau'r ysgol Sul. Diolch i'r rhai fu'n eich hyfforddi.

Priodas Ychydig ddyddiau cyn dydd Nadolig priodwyd David Henderson, Bryn Gwynedd a Heledd Bryn Parry. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r pâr ifanc.

Dyweddïo Llongyfarchiadau i Geraint Rees, Cae Adda, ar ei ddyweddïad â Iona Emlyn o Fethesda. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Gwenllïan Jones, Teganedd a Peter Williams, Ty'n Ceunant. Bu'r ddau ohonynt yn dathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed yn ystod mis Ionawr. Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu gyrfa yn y dyfodol.

Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau da at Mrs Kitty Roberts (Bryn Teg gynt) ond sydd yn awr yn derbyn

gofal yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon. Bu'n dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn gant a phump oed ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.

Yn yr Ysbyty Anfonwn gofion cynnes at Mr Gwilym Williams, Fferm Bod Hyfryd, sydd wedi treulio y Nadolig yn Ysbyty Gwynedd. Mae'n dda clywed ei fod yn gwella ac wedi cael dod i Ysbyty Eryri. Hyderwn yn fawr y byddwch yn dal i wella ac y byddwch adref yn ôl yn fuan iawn.

Anfonwn ein cofion hefyd at Dylan, 7 Dôl Erddi, sydd yn derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Hyderwn y bydd yn gwella a chryfhau a chael dod adref at y teulu.

Wedi damwain yn ei gartref cymerwyd Mr Robert Wyn Williams (blaenor yn Eglwys y Waun) i'r ysbyty yn Lerpwl. Hyderwn y byddwn yn gwella a chryfhau.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Sioned Parry, Cefn y Waun, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Da cael dweud ei bod yn gwella ac wedi cael dod adref.

Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Nance Hughes, Wernas, Stad Croesywaun, a Mrs Kit Jones, Stad Tref Eilian, wedi i'r ddwy gael eu cymryd i Ysbyty Gwynedd.

Croeso adref hefyd i Mrs Lilian Jones, Treflys. Cymerwyd hi i'r ysbyty wedi iddi syrthio yn ei chartref.

Gorfu i Beca, Merch fach Bethan a Martin Beech, Bryn

Afon, dreulio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd ond mae yn gwella ac yn ôl adref erbyn hyn.

Treuliodd Elwyn Jones, Stad Bryn Golau; Aled Taylor, Baladeulyn, Stad Dôl Erddi a Trefor Beech, Bronallt, gyfnodau yn yr ysbyty wedi iddynt gael anffawd, ac hefyd Gwyn Thomas, Cynrant, wedi iddo anafu a thorri ei goes yn ystod gêm bêl-droed.

Gobeithio y byddwch i gyd yn gwella a chryfhau bob dydd.

Cydymdeimlwn â Mrs Barbra Griffith, Stad Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, a oedd wedi ymgartrefu yng Nghartref Preswyl y Foelas, Llanrug.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Dafydd Owen a theulu Gors yn eu profedigaeth o golli brawd Dafydd, yr adroddwr Brian Owen o'r Groeslon, Penygroes.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Trevor Wilson, Bwthyn Bach, yn ei brofedigaeth drist o golli ei wraig, Janet, yn ddiweddar.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Yn ystod mis Rhagfyr cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Roedd hi'n braf gweld cyn-ddisgyblion Ysgol Waunfawr yn cystadlu yn y gwahanol gystadlaethau. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Yng nghystadleuaeth Cadair yr Eisteddfod daeth Mared Ynyr, Dolwar Fach, yn ail ac Enlli Pritchard, Llys Meredydd, yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonynt.

Sioe Ffasiwn

Dillad hyd at 70% yn is na phris y Stryd Fawr

yn y Ganolfan am 7.00pm nos Wener, 27 Chwefror.

Tocynnau ar gael o'r ysgol am £5.00
Bydd bar a lluniaeth ysgafn ar gael.
Mynediad i ferched dros 18 oed yn unig.
Elw at Gronfa Cyfeillion Ysgol Waunfawr.

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF


Cynylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996



J. M. JONES

a'i FEIBION

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith

01286 672898

Cartref

01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ysgol Waunfawr



Hoffai plant a staff yr ysgol ddydd Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr Eco. Bu'n ddiwedd tymor prysur fel arfer. Cafwyd ffair Nadolig llwyddiannus iawn ar Ragfyr y 10fed. Roedd hi'n braf gweld yr ysgol yn llawn o rieni a phlant.

Cafodd plant blwyddyn 2 ac 1 ddysgu am Draddodiadau'r Nadolig yn Amgueddfa Llanberis ddechrau mis Rhagfyr. Cawsant gyfle i wneud addurn Nadolig a chael stori gan Mair Tomos Ifans. Cafwyd diwrnod addysgol da iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain.

Cafwyd cinio Nadolig blasus ddydd Mercher, Rhagfyr y 10fed, pawb wedi gwisgo mewn siwmpwr Nadoligaidd a chasglwyd £60 tuag at Gronfa Achub y Plant.

Cafodd un ar bymtheg o ferched blwyddyn 1 a 2 gyfle i ddawnsio'r

ddawns flodau yn seremoni Cadeirio Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Roedden nhw'n werth eu gweld. Diolch i'r athrawon a fu'n hyfforddi ac i'r tair cymhorthydd a fu wrthi'n brysur yn gwneud y gwisgoedd. Cafwyd tair sioe Nadolig llwyddiannus iawn yn y Ganolfan. Diolch i'r plant a'r staff am eu gwaith clodwiw a diolch i'r rhieni hynny a fu'n helpu gyda'r goleuadau, y system sain ac wrth y drws. Diolch i Paul Evans am ffilmio'r sioe mae DVD ar werth yn yr ysgol am £4.00 yr un.

Daeth rhieni'r plant Meithrin i'r ysgol fore ddydd Gwener, Rhagfyr y 18fed, i glywed y plant yn canu a chael paned a mins pei. Roedd y plant yn werth eu gweld yn eu gwisgoedd a chyn mynd adref daeth Siôn Corn ag anrheg iddynt.

Llwyddiant mawr i weithwyr yr Antur!



Mae nifer o weithwyr ym menter gymdeithasol Antur Waunfawr wedi cael llwyddiant yn ddiweddar, ac wedi ennill amryw o dystysgrifau.

Enillodd grŵp o wyth o weithwyr sy'n gweithio yng Nghaffi'r Antur yn Waunfawr eu dystysgrifau mewn Hylendid Bwyd, tra bod saith arall wedi ennill dystysgrifau ar gyfer teithio annibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Cyflwynwyd y dystysgrifau i'r gweithwyr gan y Cyngorydd Wyn Williams mewn seremoni fach, a fynychwyd gan Helen

Fôn Owen o Gyngor Gwynedd, ac aelodau o Fwrdd Antur Waunfawr.

Draw yng Nghaergylchu ar Stad Cibyn, depo ailgylchu'r Cyngor ar y cyd gyda'r Antur, roedd gan weithiwr arall hefyd achos i ddathlu, ar ôl pasio ei gwrs Tryc Fforch Godi Gwrthgytbwys. Roedd Iwan Morris o Fethel wrth ei fodd wedi ennill ei dystysgrif, ac yn awyddus i ddechrau gyrru.

Meddai'r Brif Weithredwraig Menna Jones: "Rydym yn hynod falch o'n holl weithwyr, ac o'u cyflawniadau. Mae pob

cam a wnaed yn gam tuag at fywyd mwy annibynnol, a bydd staff yr Antur yma bob amser i'w cefnogi a'u helpu i ddatblygu eu sgiliau hyd eithaf eu gallu."

Rhai o weithwyr yr Antur yn dathlu gyda Phrif Weithredwraig Menna Jones, Stephen Goodwin (Rheolwr Gwasanaethau Dydd), Helen Fôn Owen (Cyngor Gwynedd), Y Cyngorydd Wyn Williams, a Chadeirydd Bwrdd yr Antur, John Gwynedd.

Iwan yn amlwg yn hapus iawn o fod wedi ennill ei dystysgrif!



Ysgol Gymuned Penisarwaun

Sgwrs - Croesawyd Sara Burman a Karen Dubber o “Burman’s Martial Arts” Llanberis i’r Ysgol fore dydd Mercher Ionawr 14eg. Roedd Bu 5 a 6 yn rhan o’r sgwrs ynglŷn â bwlio.

Twrnamaint Pêl-rwyd - Aeth y Tîm Pêl-rwyd i Borthmadog dydd Iau, Ionawr 15fed, i gymryd rhan yn y ffeinal ar gyfer Ysgolion Gwynedd. Rydym yn falch iawn o’u hymroddiad ac am ddod yn 4ydd yn erbyn Ysgolion sydd dipyn mwy o faint, ardderchog chi blant!

Cymerwyd rhan yn nhwrnamaint Pêl-rwyd yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon nos Iau Ionawr 22ain.

Gwasanaeth boreol - Croesawyd Mr Andrew Setatree i gynnal y gwasanaeth bore Llundun, Ionawr 26ain.

Ymweliad yr Heddlu – Galwodd PC Dylan Pritchard i gael sgwrs gyda’r plant fore Llundun, Ionawr 26ain.

Gala Nofio - Cymerodd tua 25 o blant yr ysgol ran yn y

Gala a gynhaliwyd dydd Iau, Ionawr 29ain. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd mis Rhagfyr oedd Mr Richard Jones, Heather Bank gyda Rhif 49. Llongyfarchiadau. Diolch i bawb am gefnogi’r bêl bonws yn ystod 2014. Pob lwc i bawb yn 2015!

Cydymdeimlir yn ddwys gyda Mr Arnold Jones, Tai Arthur, a’r teulu yn eu profedigaeth cyn y Nadolig. Bu farw ei chwaer annwyl, sef Mrs Mair Osborne, yn dawel yng nghartref nyrsio Penisarwaen.

Diolch - Dymuna Arnold a Pat Jones ar teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, a’r rhoddion a dderbyniwyd tuag at Plas Pen Gwaith yn dilyn eu profedigaeth o golli Mrs Mair Osborne o Benrhosgarnedd, Bangor. Mae’r cyfan wedi bod yn gysur mawr iddynt.

Cartref Nyrsio Penisarwaun

Hoffem ddiolch i’r holl ffrindiau, teulu ac i’r gymuned leol a gyfrannodd at y Nadolig

a’r Flwyddyn Newydd wych. Mae’r anrhegion a rhoddion i’r staff a phreswylwyr yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr iawn.

Ysgol Sul Bosra Braf oedd cael ailgyfarfod fore Sul, Ionawr 11, wedi bwrlwm y Nadolig. Dymuna Mr Evie Jones, Anti Ann ac Anti Liz ddiolch i’r plant am eu ffyddlondeb drwy 2014 a mawr ddiolch i’r rhieni am eu caredigrwydd a’u cefnogaeth i’r Ysgol Sul. Thema’r tymor diwethaf oedd ‘Cartrefi’ a’r themâu hyd yr haf fydd ‘Anifeiliaid’ a ‘Theithio’ gyda digon o storïau o’r Beibl, Chwedlau Aesop a Chwedl Melangell, Santes yr Anifeiliaid. Byddwn yn hynod falch o unrhyw adnoddau perthnasol ac mae croeso o hyd i aelodau newydd.

Pwyllgor Neuadd Nos Lun, Ionawr 19, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd Gymuned. Cadarnhawyd Cofnodion 2014 fel rhai cywir. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a’r enillwyr oedd: Elin Glyn, Llanrug; a William Oliver, Brynrefail.

Anfonwyd cofion gorau at bawb sy’n sâl yn y pentref neu’n derbyn triniaethau mewn

ysbyty. Gobeithir cynnal pnawn i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Neuadd Gymuned ar Fawrth 2il am 2.30 gydag eitemau gan blant yr Ysgol ac aelodau’r pwyllgor. Bydd paned, bara brith a theisennau cri a chyfle i gymdeithasu.

Eisteddfod Bentref Trefnwyd pwyllgor nos Lun, Ionawr 19 am 7.30. Cafwyd rhai ymddiheuriadau oherwydd salwch ond siomedig fu’r ymateb. Cynhelir pwyllgor eto ar Chwefror 23. Oni cheir cefnogaeth deilwng y tro hwn ni ellir cynnal Eisteddfod eleni. Felly mae croeso i bawb ddod i’r pwyllgor hwn, yn arbennig chwi rieni a’r bobl ifanc. Erfynnir am eich cefnogaeth i sicrhau parhad Eisteddfod sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus ac yn cynnig cyfleon gwerthfawr i’r plant.

Cofion Gorau Dymuna Ann a Dafydd a’r teulu adferiad iechyd buan i Osian Dafydd – wedi triniaeth i’w galon yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir diolch i’w gyd-weithwyr am y gofal ohono ac yn arbennig i’r meddyg teulu, meddygon a staff Ysbyty Gwynedd. ‘Pwyll pia hi rŵan.’

Ymgynghoriad Cyhoeddus


Dymuna cwmni Snowdonia Pumped Hydro Limited eich gwahodd i’w harddangosfeydd cyhoeddus am y prosiect storio a phwmpio Glyn Rhonwy. Mae SPH yn gwneud cais i adeiladu, gweithredu a chynnal cyfleuster pwmpio a storio ar lethrau mynydd Cefn Du tua 1.5 cilomedr i’r gogledd-orllewin o Lanberis. Yn yr arddangosfeydd byddwch yn gallu gweld cynlluniau o’r datblygiad a siarad â staff o gwmni SPH am unrhyw sylwadau neu gwestiynau sydd gennych yn ymwneud ar cais. Byddwch hefyd yn gallu cyflwyno eich sylwadau yn ffurfiol ar y prosiect.

Dyddiadau ac amseroedd

	Amser
Dydd Gwener Chwefror 27ain 2015	14.00-20.00
Canolfan y Capel, Caeathro, LL55 2SS	

Dydd Sadwrn Chwefror 28ain 2015	10.00-19.00
Gwesty’r Victoria, Llanberis, LL55 4TY	

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect ar www.snowdoniapumpedhydro.com. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y prosiect neu ymgynghoriad, gallwch gysylltu â’r tîm drwy e-bost ar info@snowdoniapumpedhydro.com neu drwy ein ffonio ar (English: 0800 157 7344 neu Cymraeg: 0800 054 2181). Dewch i’n gweld ni i ddarganfod mwy am y prosiect ac i ddweud eich barn.



CWMY GLO

Undeb y Mamau I ddechrau ein cyfarfodydd am y tymor cyfarfu’r aelodau yn eglwys Sant Mair Caernarfon pnawn Mawrth 20 Ionawr. Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan Hilda a chafwyd gwasanaeth a tôn o weddi. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cyfarfod yn y festri. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Iola Katie, Iris ac Enid. Darllenwyd cofnodion o’r cyfarfod a gafwyd ym mis Rhagfyr a thrafodwyd rhai materion. Trafodwyd materion a godwyd yn y pwyllgor a gafwyd yng Nghricieth, 14 Hydref.

Diwrnod yr Esgob: 9 Mai; Sêl enfys: 19 Mehefin; Cyfarfod blynyddol: 25 Mehefin.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Jini Salisbury Jones a Louie Jones. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe’i henillwyd gan Nerys Ellis Jones. Diolchwyd i’r gwesteion gan Dorothy a Hilda. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf: 17 Chwefror.

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï ar nos Fawrth, 17eg Chwefror, yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 o’r gloch. Y siaradwr gwadd fydd Lynn Davies, Llanfair P.G. a thestun ei ddarlith fydd ‘ Llên Gwerin y Glöwr’. Croeso cynnes iawn i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

Disgyblion Ysgol Pendalar yn mentro i fyd busnes

Mae dau griw o ddisgyblion o Ysgol Pendalar, Caernarfon wedi mentro i fyd busnes ar ôl llwyddo i ennill bwrsariaeth gan brosiect Llwyddo'n Lleol.

Mae prosiect arloesol Llwyddo'n Lleol yn cefnogi pobl ifanc Gwynedd i sefydlu eu busnesau a'u mentrau busnes eu hunain drwy gynnig bwrsariaeth hyd at £1,000. Mae'r prosiect wedi ei ariannu yn rhannol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Digomisiynu Niwclear, Rhwydwaith 14-19 a Chronfa Môn Menai.

Cafodd y criw cyntaf o ddisgyblion gyfle i ddilyn cymhwyster Lefel Un mewn Entrepreneuriaeth, oedd yn cynnwys Swyddog Datblygu Llwyddo'n Lleol a modelau rôl o'r prosiect Syniadau Mawr yn gweithio gyda'r criw i ysbrydoli syniadau busnes. Penderfynwyd ar fusnes argraffu crysau-t 'Cŵl Cofis Cool' gan roi cyfle i'r criw ddangos eu hochr greadigol a datblygu'r busnes yn y dyfodol i argraffu nwyddau eraill.

Penderfynodd yr ail griw o ddisgyblion o Ysgol Pendalar i sefydlu busnes peintio ac addurno siapiau pren er mwyn creu addurn i'r cartref o'r enw Siapiau Seiont gyda phob disgybl yn cymryd rhan yn y broses o beintio, tyllu a gwerthu'r cynnyrch terfynol. Er mwyn derbyn y fwsariaeth, cydweithiodd y dosbarth i greu cynllun busnes, gyda help Swyddog Datblygu Llwyddo'n Lleol. Drwy ennill bwrsariaeth, roedden nhw'n gallu prynu nifer o eitemau angenrheidiol i'r fenter megis y paent a'r siapiau.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi Cyngor Gwynedd:

"Mae'n wych gweld dau griw o ddisgyblion o Ysgol Pendalar yn ymuno a nifer fawr o bobl ifanc Gwynedd sydd eisoes wedi mentro a llwyddo ym myd busnes gyda help gan brosiect Llwyddo'n Lleol. Yn wir, mae dyfodol economi'r gogledd yn dibynnu ar sicrhau bywoliaeth dda i'n bobl ifanc, boed hynny ym myd busnes neu fel arall. Byddwn yn annof unrhyw un sydd yn credu gallent hwy wneud yr un fath gyda thîm Llwyddo'n Lleol.

"Mae bod yn rhan o'r busnesau newydd hyn wedi rhoi cyfle gwych i'r disgyblion ddysgu sgiliau newydd fel cynllunio, cynhyrchu a gweithio mewn tîm. Mae'r holl broses o sefydlu'r mentrau hefyd wedi bod yn gyfle gwych i'r bobl ifanc fagu hyder ac yn brofiad gwerthfawr iawn iddynt."

Os ydych chi rhwng 11-19 oed, ac yn byw yng Ngwynedd neu Môn cysylltwch gyda Llwyddo'n Lleol am fwy o wybodaeth sut gallwch chi dderbyn b wrsariaeth, drwy fynd i www.llwyddo-potensial.co.uk neu cysylltwch gyda Nia Medi Williams drwy e-bostio LlwyddonLleol@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 01286 679867.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter
fachwen



RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk



MENTER
MÔN



GWENER 6 CHWEFROR 10.00yb

TAITH GERDDED RHEILFFORDD LLANBERIS (2½ milltir un ffordd / 5 milltir dwy ffordd)

CYCHWYN: 'CANOLFAN CERDDED A DARGANFOD'
MENTER FACHWEN, Tŷ CAXTON, STRYD FAWR,
LLANBERIS I CAFFI CWM Y GLO.

CYMHEDROL. SGIDIAU CERDDED.

WYTHNOS CYCHWYN 9ed CHWEFROR

NOSON GWYLIO'R SÊR

BYDDWN YN EDRYCH AR Y TYWYDD A GOBEITHIO
CAEL NOSON GLIR I FYND I WYLIO'R SÊR. BYDDWN
YN ANFON E-BOST ALLAN I'W HYSBYSEBU.

CYSYLLWCH A 'garmel@fsmail.net' I DDERBYN
GWYBODAETH AM EIN TEITHIAU CERDDED A
GWEITHGAREDDAU ERAILL.

IAU 19 CHWEFROR 2.00yp

BRWYDRAU CAERNARFON DROS Y CANRIFOEDD:
CYNNWYS 'TWTHILL' (2½ milltir)

CYCHWYN: GALERI, CAERNARFON.

CYMHEDROL GYDA GALLT I GOPA TWTHILL.
SGIDIAU CERDDED.

GWENER 27 CHWEFROR 10.00

DEINIOLEN 100 MLYNEDD YN ÔL (2 milltir)

CYCHWYN: CAFFI E.B,s DEINIOLEN.

EITHA HAWDD. SGIDIAU CERDDED.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter
fachwen



RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

**cysylltwch â
Mantell Gwynedd**



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



Osian Land – enillydd tlws y nifer mwyaf Nia Haf – enillydd y Gadair o farciau o'r llwyfan.

Leusa Gwenllian – enillydd y Tlws Cymraeg.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2014

Eleni cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Brynrefail ar ddydd Iau, Rhagfyr 11eg, yn neuadd yr ysgol. Yr oeddy diwrnod o gystadlu yn benllanw ar waith paratoi ac ymarfer ers wythnosau a'r chweched dosbarth wedi bod yn hynod o brysur yn paratoi'r gwahanol gystadlaethau.

Y beirniaid eleni oedd Mrs Heledd Tandy (llên a llfaru) a Miss Lois Eifion (cerdd) y ddwy ohonynt yn gyn-ddisgyblion o'r ysgol. Dywedasant eu bod wrth eu boddau yn ystod y dydd a gyda'r nos yn gwyllo'r gwahanol gystadleuwyr talentog a'u bod wedi mwynhau'r cyfle i ddod yn ôl i'r ysgol yn fawr iawn.

Un o'r cystadlaethau cyntaf yn y dydd oedd yr Unawd i ddisgyblion blwyddyn 7 i 9 gyda phedwar yn cael ymddangos ar y llwyfan yn canu 'Haleliwia'. Perfformiodd y pedwar y gân yn ardderchog ond y gorau ym marn y beirniad oedd Leisa Gwenllian o dy Eilian gyda Ywain Jones ac Osian Land hefyd o dy Eilian yn gydradd ail a Telaid Jones o dy Gwyrfaï yn drydydd.

Cafodd y gynulleidfa lawer o hwyl pan ddaeth y Caneuon Ysgafn i'r llwyfan. Roedd pob ty yn wych ond fersiwn Eilian

o 'Bohemian Rhapsody' a'r gân honno yn dweud stori'r geni mewn ffordd anghonfensiynol iawn a blesiodd y beirniad.

Yn dilyn y gystadlaeth honno daeth y Partion Sbaeneg i'r llwyfan yn eu melyn a'u coch yn canu'r gân 'La Bamba' yn frwdfrydig iawn! Yr enillwyr unwaith eto oedd Eilian.

Cân y Parti Bechgyn eleni oedd 'Trôns dy Dad' – cân a achosodd lawer o chwerthin a'r hogia wrth eu boddau'n actio stori'r gân ac yn cael cyfle mewn rhai achosion i wisgo tronsys dros eu trowsusau! Gwelwyd ambell ferch amheus ar y llwyfan ar yr adeg yma, ai Owi oedd enw un ohonynt?

Yr oedd y Parti Merched yn gystadlaeth ychydig yn fwy parchus efallai gyda'r genod yn canu 'Disgyn amdanat ti' yn swynol iawn i gyd.

Parhaodd yr hwyl pan ddaeth y Grwpiau Dawnsio i'r llwyfan. Gwelwyd llawer o wahanol fathau o ddawnsio ond y grwp buddugol a berfformiodd ddawns disgo yn llawn hyder ac egni oedd genod ty Gwyrfaï.

Daeth cystadlu'r pawns i ben gyda'r sgetsys a phawb yn

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”

PARTI YSGOL PENDALAR



Er fod y Nadolig erbyn hyn yn pallu yn y cof rhaid yw cofnodi y bu parti godidog yn Neuadd yr Ysgol pryd oedd pob disgybl ac aelodau staff Ysgol Pendalar yn dathlu. Nid ar chwarae bach y mae trefnu y fath achlysur ac yr ydym fel teulu ysgol yn ymfalchio bod aelodau o flwyddyn 12 wedi gweithio’n ddygn am gyfnod i wneud y trefniadau oll.

Ar eu rhan, ac ar ran pawb a fwynhaodd yr achlysur, rhaid hefyd diolch i chi, ddarlennwyr yr Eco, cymdeithasau lleol, busnesau lleol, unigolion a theuluoedd am gynorthwyo trwy ariannu’r oll. Diolch yn fawr.



Math Emyr- enillydd Tlws Emma Bernard ar gyfer y perfformiad actio/llefaru gorau.



Sara Williams- enillydd Tlws Rhyddiaith yr Ifanc.

mwynhau actio gwyh Miriam a Math a Rhun (a Rhys fel Siôn Corn) yn arbennig. Yn y diwedd sgrïpt arbennig ty Gwyrfai olygodd mai nhw enillodd a chael y fraint o berfformio yn eisteddfod yr hwyr.

Cafodd pawb ddaeth i wyllo’r Eisteddfod yn y nos wledd ac mae’n anodd iawn dewis a dethol yr eitemau gorau. Yr hyn sy’n aros yn y cof yw hapusrwydd Sara Williams, blwyddyn 9, a Nia Williams, blwyddyn 12, wrth ennill Medal yr Ifanc a’r Gadair. Wedi hynny gwelwyd llond llwyfan o berfformwyr offerynnol y dyfodol pan gafwyd cystadleuaeth yr Ensemble Offerynnol. Ty Gwyrfai enillodd y gystadleuaeth hon gyda’u fersiwn arbennig nhw o ‘Mynd i Gorwen hefo Alis’.

Gwfreiddiwyd y gynulleidfa wrth wrando ar gystadleuaeth yr Unawd i flynyddoedd 10–13 sef yr unawd allan o sioe gerdd. Byddai’n anodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd guro safon y gystadleuaeth hon. Dyfarnodd y beirniad mai perfformiad Megan Crisp o dy Gwyrfai oedd yn haeddu’r wobwr gyntaf gyda Magi Tudur, Siôn Emlyn a Gwern Brookes yn derbyn canmoliaeth uchel am eu perfformiadau arbennig hwythau.

Yr un mor anfarwol oedd cystadleuaeth y Partion Llefaru gyda phob ty yn dewis reff arbennig iawn i fod yn rhan o’r cyflwyniad ‘Cym on reff!’ Barn y beirniad oedd mai dehongliad Eryri o’r darn oedd orau ac efallai felly mai Caio Hywel oedd reffari mwyaf credadwy y gystadleuaeth!

Daeth y noson i ben gyda phedwar Côr caboledig iawn yn ymddangos ar y llwyfan i ganu ‘Gwyl y Baban’. Mae’n debyg bod dros dri chant o ddisgyblion wedi ymddangos ar y llwyfan, cymaint oedd niferoedd pob côr. Hwn oedd pinac y cystadlu a’r canlyniad yn agos iawn ond gyda Gwyrfai yn fuddugol.

A dyna oedd y canlyniad terfynol hefyd gyda Gwyrfai yn gyntaf, Eilian yn ail ac Elidir ac Eryri yn drydydd a phedwerydd. Ffrwydrodd y neuadd pan gyhoeddwyd y canlyniad a phan ddaeth capteiniaid ty Gwyrfai, Gwern Brookes a Manon Thomas, ymlaen i godi’r gwpan.

Diolch i gapteiniaid y tai i gyd, y chweched dosbarth am hyfforddi, yr holl ddisgyblion a gymrodd ran a’r athrawon i gyd a fu wrthi’n paratoi ar gyfer cynnal eisteddfod ysgol fwyaf llwyddiannus ysgolion Cymru. Ymlaen yn awr at Steddfod 2015!

Cyfle i ddysgu am olrhain hanes teulu

Mae olrhain hanes teulu wedi dod yn boblogaidd iawn yn ddiweddar gyda nifer o raglenni teledu yn canolbwyntio ar y maes a mwyfwy o bobl yn dangos diddordeb mewn llunio eu coeden teulu personol. Mae'n debyg felly y bydd cyrsiau a fydd yn rhoi arweiniad i bobl am y ffordd gorau i fynd ati i olrhain eu hachau yn hynod boblogaidd.

Cynhelir y cyrsiau undydd ar gyfer y sawl sydd â diddordeb mewn Olrhain Hanes Teulu yn Archifdy Caernarfon dan arweiniad Gwasanaeth Archifdy Gwynedd. Bydd y cyrsiau yn rhoi canllawiau ar sut i gychwyn olrhain hanes eich teulu, ac yn rhoi cyfle i edrych ar wahanol fathau o ffynonellau a thystiolaeth.

Bydd sesiwn yn rhoi astudiaeth achos a sesiwn cwestiwn ac ateb yn rhoi cyfle i chwi holi'r archifyddion. Bydd y sawl sy'n mynychu yn derbyn pecyn gwybodaeth. Cost y cwrs yw £10.

Cynhelir y cyrsiau ar y dyddiadau canlynol:

Dydd Sadwrn, 14 Chwefror 2015: Cwrs Hanes Teulu (Cymraeg)

Page 6.

BURIALS in the Parish of <i>Llanfihangel yn Rhug alias Llanrhaeadr</i> in the County of <i>Carnarvon</i> in the Year 18 <i>16</i>				
Name.	Abode.	When buried.	Age.	By whom the Ceremony was performed.
<i>Owen Hughes</i> No. 41.	<i>Lyddyn Mithy</i>	<i>Oct 29th</i>	<i>29</i>	<i>J. A. Lewis</i>
<i>Anne Owen</i> <i>Widow</i> No. 42.	<i>Cwm y Gelo</i>	<i>December 12th</i>	<i>49</i>	<i>P. B. Williams</i>
<i>William Williams</i> No. 43.	<i>Hos. Ifal</i>	<i>Jan 16th</i> <i>1817</i>	<i>3</i> <i>days</i>	<i>P. B. Williams</i>
<i>John Jones</i> No. 44.	<i>Waelwau</i> <i>Llanbilly</i>	<i>Feb 12th</i> <i>1817</i>	<i>1 year</i> <i>3 months</i>	<i>G. B. Lewis</i>

Lleoliad: Archifdy Caernarfon

Amser: Cwrs diwrnod yn cychwyn am 10.00 y bore

Dydd Llun, 23 Chwefror 2015: Cwrs Hanes Teulu (Saesneg)

Lleoliad: Archifdy Caernarfon

Amser: Cwrs diwrnod yn cychwyn am 10.00 y bore

Mae'n angenrheidiol i archebu lle ar y cyrsiau. Os am archebu lle cysylltwch â:

Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd ar 01286 679095 neu e-bostiwrch: archifdy@gwynedd.gov.uk



Cefnogwch ein hysbysebwr

Silff Storis - Cynllun Celf a Stori i Blant a Theuluoedd Gwynedd

Mae Uned Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd yn cydweithio â'r artist Catrin Williams a'r storiwraig Fiona Collins i gynnal cynllun stori a celf i blant a theuluoedd y sir.

Nod y prosiect yw cynnal cyfres o weithdai creadigol i gasglu, creu a rhannu straeon a delweddau plant a phobl ifanc. Bydd yn creu cofnod parhaol o'r straeon a chynhyrchu adnodd i annog teuluoedd i fod yn greadigol, i ddarllen a chreu gyda'i gilydd. Mae'r cynllun hefyd wedi ei ddyfeisio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hunan fynegiant ar gyfer iechyd a lles.

Mae gweithdai creadigol wedi cael eu cynnal yn Uned y Plant Ysbyty Gwynedd ac ar gyfer plant gwasanaeth Derwen - tîm integredig ar gyfer plant anabl.

Mae artistiaid y cynllun wedi ymweld a phlant yn yr ysbyty ac yn y gymuned i arlunio ac ysgrifennu straeon. Mae llu o straeon a delweddau wedi eu creu'n barod gyda straeon am gowbois, dyn o'r gofod, crocodeil a chwnhingod anweledig yn hedfan.

Dywedodd Fiona Collins sydd wedi bod yn cynnal y cynllun creu straeon:

"Mae hi wedi bod yn bleser cael bod yn rhan o'r cynllun. Rwyf wastad yn cael fy synnu wrth wrando ar straeon y plant, mae eu creadigrwydd a'u dychymyg yn anhygoel o gyfoethog."

Mae yn bortffolio mawr o waith celf wedi ei greu'n ogystal, gyda'r artist Catrin Williams yn cydweithio â'r plant i arlunio cymeriadau a golygfeydd o'r straeon.

Yn y flwyddyn newydd bydd Fiona a Catrin yn gweithio i gofnodi'r holl straeon. Bydd darlleniadau o'r straeon yn cael eu cynnal mewn cyfres o berfformiadau cyffrous yn ystod mis Chwefror 2015, lle bydd cyfle i deuluoedd a chyfeillion y plant fynychu a dathlu'r gwaith. Bydd manylion y perfformiadau yma yn cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Am fwy o wybodaeth ewch draw i www.GwyneddGreadigol.com

Clybiau chwaraeon Gwynedd yn derbyn hwb ariannol ar gyfer 2015

Mae Cist Cymunedol Gwynedd wedi dyrannu cyfanswm o £14,930 i 15 clwb neu sefydliad chwaraeon yng Ngwynedd ar gyfer y flwyddyn newydd.

Mae grantiau Cist Cymunedol Gwynedd yn rhoi cymorth i glybiau a sefydliadau amrywiol sydd yn ymwneud a chwaraeon ledled y sir, megis clybiau pêl-droed, cerdded, gymnasteg, hoci a llawer mwy.

Bydd yr arian grant mae Cist Cymunedol Gwynedd yn dyrannu, ynghyd a nod Gwynedd Iach Cyngor Gwynedd i hyrwyddo ffitrwydd, yn helpu i hybu clybiau a sefydliadau chwaraeon yn y sir ac i ddarparu gwell cyfleoedd chwaraeon i drigolion Gwynedd.

Dywedodd y Cyngorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Gwynedd Iach ar Gyngor Gwynedd:

“Pwrpas Cist Cymunedol Gwynedd ydy i gefnogi a hyrwyddo amrywiaeth o chwaraeon ym mhob rhan o’r sir. Fel Cyngor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd a’r angen am glybiau a sefydliadau chwaraeon yn ein cymunedau, ac mae’n bwysig ein bod yn rhoi gymaint o gymorth a gallwn iddyn nhw i lwyddo. Mae’n hynod galonogol fod grantiau’r Gist Gymunedol yn parhau i fod o gymorth i nifer helaeth o glybiau a sefydliadau chwaraeon yng Ngwynedd.

“Byddwn yn annog unrhyw glwb neu sefydliad chwaraeon yng Ngwynedd sy’n credu eu bod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan Cist Cymunedol Gwynedd i gyflyno cais cyn gynted a phosibl. Gall grant o’r fath hon sicrhau parhad a datblygiad eich clwb neu sefydliadau yn y cyfnod ariannol heriol hwn sydd ohoni.”

Yng nghyfarfod Cist Cymunedol Gwynedd ym mis Rhagfyr 2014, dyrannwyd grantiau i’r clybiau a sefydliadau chwaraeon canlynol:

Clwb Pêl-droed Merched Pwllheli o dan 16 oed, Clwb Rygbi Pwllheli, Clwb Tennis Bangor

Clwb Sub Aqua Llyn, Clwb Pêl Rwyd Dinas Mawddwy, Clwb Pêl-droed Mynydd Tigers FC

Clwb Pêl-rwyd Merched Porthmadog, CPDI Bro Dysynni, Clwb Trampolin Bangoross

Clwb Gymnastics Eryri, Clwb Criced Pwllheli, Clwb Deifio Bilidowcars Bangor

Academi Dringo Ieuencid Gogledd Cymru.

Yn ychwanegol i’r grantiau hyn, derbyniodd glwb codi pwysau ‘The Goldilocks Gang’ o Fangor £1,500. Bydd yr arian yn galluogi’r clwb, sydd newydd ei sefydlu ar gyfer merched yr ardal, i brynu offer ychwanegol er mwyn ehangu’r clwb a mynychu cyrsiau hyfforddi.

Mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru hefyd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Gist Cymunedol ar gyfer cynllun ar y cyd rhwng Chwaraeon Anabledd Gwynedd a’r FAW i sefydlu tîm Pêl-droed Amhariad Golwg a chyfrannu at brynu offer a llogi cyfleusterau ar gyfer ymarfer.

Am fwy o wybodaeth am sut gall eich clwb neu sefydliad chwaraeon chi geisio am gefnogaeth ariannol gan Gist Cymunedol Gwynedd, cysylltwch â thîm datblygu chwaraeon Cyngor Gwynedd drwy e-bostio DatblyguChwaraeon@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 01766 771000.

Cyd Cymru yn taro bargaen dros bobl Gwynedd

Mae cyfle arbennig i drigolion Gwynedd ymuno â chynllun cenedlaethol Cyd Cymru sy’n anelu i arbed costau ynni drwy daro bargaen efo’r cwmnïau mawrion ar ran y cwsmer.

Drwy dynnu aelwydydd at ei gilydd, mae Cyd Cymru - sy’n cael ei gefnogi gan Gyngor Gwynedd - yn gallu bargeinio ar ran pawb sy’n cofrestru, a chael pris gwell am ynni i’r cartref.

Mae cyfnod cofrestru diddordeb ar gyfer y cynllun bellach ar agor a gallwch ddatgan eich diddordeb tan 2 Mawrth 2015 drwy ymweld â gwefan Cyd Cymru: www.cydcymru-ynni.com neu ffonio 0800 093 5902.

Bydd Cyd Cymru wedyn yn cysylltu gyda rheini sydd wedi cofrestru ym mis Mawrth gyda chynnig pendant. Os ydych yn penderfynu derbyn y cynnig – ac yn newid eich cyflenwr trydan a/neu nwy – bydd cymorth rhwydd a chyflym ar gael ar sut i wneud hyn. Ond os ydych yn penderfynu peidio bwrw ymlaen, ni fydd unrhyw orfodaeth arnoch i dderbyn y cynnig.

Dywedodd y Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Adnoddau:

“Mae llawer i’w ddweud dros yr hen ddywediad, mewn undod mae nerth. Braf felly yw gweld cynllun synnwyr cyffredin sy’n cryfhau ein gallu fel cwsmeriaid yng Nghymru i sicrhau’r pris gorau bosib gan y cwmnïau mawrion.

“Drwy gydweithio ar draws Cymru, a chyd-fargeinio efo’r cwmnïau ynni, gall Cyd Cymru sicrhau arbediad sylweddol i bobl Gwynedd. Dyna pam ein bod fel Cyngor yn cefnogi’r ymgyrch arbennig hwn ac yn gobeithio y bydd nifer fawr o drigolion Gwynedd yn cofrestru eu diddordeb yn y cynllun.”

Ychwanegodd y Cyngorydd Eirwyn Williams, aelod lleol Criccieth ar y Cyngor sydd wedi bod yn gefnogwr brwd o’r cynllun:

“Ar draws y wlad, mae miloedd o bobl eisoes yn elwa o gynlluniau tebyg i hwn ac mae’n bwysig gwneud yn siŵr fod trigolion Gwynedd hefyd yn gallu gwneud y mwyaf o’r cyfle.

“Diolch i gynllun Cyd Cymru, arbedodd y bobl hynny oedd eisoes wedi ymuno â’r cynllun oddeutu £185 ar gyfartaledd ar ei biliau trydan a nwy yn 2014. Yn yr oes sydd ohoni lle mae sawl un yn poeni cyn rhoi’r gwres ymlaen, mae pob ceiniog yn cyfrif, a byddai arbediad o’r fath yma yn siŵr o fod yn help garw i deuluoedd yma yng Ngwynedd.”

Mae ymgyrch Cyd Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gefnogi gan gynghorau drwy’r wlad. Am fwy o fanylion neu i gofrestru eich diddordeb, ewch i wefan Cyd Cymru: www.cydcymru-ynni.com neu ffoniwch 0800 093 5902.



Gwesty Dolbadarn Llanberis

Ffôn-(01286)-870277



Capel y Rhos



Llongyfarchiadau i Mrs Eileen Williams, 10 Afon Rhos, oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar ddydd Nadolig. Dyma lun ohoni yn derbyn tusw o flodau gan Mrs Doris Evans, cyd aelod iddi. Cafodd barti gwerth chweil yn y Caban, Brynrefail, a bu'n dathlu gyda'i theulu a ffrindiau yno.

Dymunwn y gorau i Mr Iolo Llywelyn, yn ei gartref newydd ym Mangor. Cyflwynwyd planhigyn Nadolig iddo yng ngwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul. Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn unwaith eto yng ngofal y plant a'r athrawon.

Oedfaon mis Chwefror

- 1: Y gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson
- 8: Parch Glenys Jones
- 15: Y Gweinidog
- 22: Parch Dafydd L. Hughes

Ar nos Sul, 4ydd o Ionawr, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig o Naw Llith a Charol yng Nghapel y Rhos. Braff oedd gweld cynrychiolaeth o'r eglwys a chapeli Llanrug yn yr oedfa a diolch i'r Parch Carol Roberts a'r Parch Marcus W. Robinson am drefnu'r cyfarfod hwn ar ddechrau'r flwyddyn.

Ysgol Llanrug



Rhai o'r plant yn mwynhau y gwersi sgio.
Clwb Sgio.

Mae'r ysgol wedi bod yn ffodus yn cael cyfle i ddefnyddio'r llethr sgio ym Mhlas y Brenin, Capel Curig. Mae llawer o'r plant wedi gwella'n sylweddol dros yr wythnosau diwethaf, a phawb yn mwynhau yn arw.

Themau y Tymor.

'Anifeiliaid' fydd themau'r dosbarthiadau derbyn a meithrin, a bydd Blwyddyn 1 a 2 yn astudio'r 'Ardal Leol'. 'Y Celtiaid' fydd maes astudio Blwyddyn 3 a 4, a Blynnyddoedd 5 a 6 yn edrych ar 'Ynni'. Os oes unrhyw un a diddordeb neu wybodaeth arbennig am unrhyw un o'r themau hyn, cysylltwch a'r ysgol. Byddem yn falch o gael cymorth gennych er mwyn cyfoethogi profiadau'r plant.

Ci Tywys.

Cafodd y Dosbarth Derbyn fore dify iawn yng nghwmni Buddug Jones a Fraya, ei chi tywys. Bu'r dosbarth yn ei holi'n frwd ynglyn a gwaith y ci tywys. Ffilmiwyd y bore ar gyfer rhaglen 'Yr Ysgol' sydd i'w dangos maes o law ar Cyw ar S4C.

“Yn ôl i Flaenau Ffestiniog...”



Geiriau cân boblogaidd rai blynnyddoedd yn ôl bellach, ond mae'n ymddangos fod Llanrug am ddwyn un o fynyddoedd y Blaenau a'i osod yn daclus yng nghae chwarae'r pentref. Dydi ffrâm ddringo ddim digon i blantos Llanrug: mae angen mynydd arnynt.

Rhyfedd hefyd, o gofio mai Castell Moelyn, Pwll Moelyn, Llyn Moelyn a Glanmoelyn fu'r enwau'n gysylltiedig â'r ardal hon ers dwy ganrif a mwy.



Parhad LLANRUG



Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Ionawr: 1. Einir Gwyn, Gwêl Elidir, Cwm y glo; 2. Enid Williams, 15 Rhos Rug, Llanrug.

Y Sefydliad Coffa Enillwyr y Clwb Cant Tachwedd: 1. Mai Davies, Bod Awel; 2.Vera Williams, Awelon; 3. Gwenda Roberts, Hafle.

Rhagfyr: 1. Ellen Jones, 4 Hafan Elan; 2. Sheila Williams, Glyn Afon; 3. Cynthia Owen, 23 Hafan Elan.

Babi Newydd Llongyfarchiadau mawr i Alex Lynes a Fflur Huws, Tŷ Newydd, Ffordd Glanffynnon ar enedigaeth Cian Dafydd ar 16 o Ragfyr 2014. Wyr cyntaf i Albert a Carol Lynes, Tŷ Newydd a Dewi a Llinos Huws, Glan y Gors, Bethel. Dymunant ddiolch yn fawr iawn am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar yr achlysur.

Diolchiadau Dymuna Eileen Williams, 10 Afon Rhos, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Llongyfarchiadau Dymunwn longyfarch Mrs

Marina Williams, Didfa, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu!

Profedigaeth Ar yr ail o Ionawr, bu farw Ann Owen, 26 Bro Rhyddallt wedi gwaeledd byr. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Derek, ei gŵr, Gwen, Meical ac Iwan a'i mam, Mrs Phyllis Morris, a'r teulu oll yn eu colled enfawr ac annisgwyl.

Yr un modd, anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Alan, Steve, Chris a Sharon a'u teuluoedd yn dilyn eu colled fawr o golli Gwraig, Mam, Nain a hen Nain, sef Veronica Owen, 4 Rhos Rug. Colled fawr iawn i chi i gyd.

Hafan Elan Dymunwn wellhad buan i Mrs Bessie Costello, Warden Hafan Elan, sydd wedi bod yn wael am gyfnod. Mae colled ar eich ôl Bessie, ond diolch i Elaine am lenwi'r bwlch ac, wrth gwrs, i'r gwirfoddolwyr selog.

Cofion annwyl Rydym yn falch o glywed fod Mrs Katie Davies wedi gwella ac yn ôl yn ei chartref yn 5 Hafan Elan ar ôl cyfnod ym Mhlas Gwilym, Penygroes.

Cofiw'n gorau at bawb arall sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Menna Williams, a dymunwyd Blwyddyn Newydd Ddedwydd i bawb yn 2015. Agorwyd y noson gyda Chân y Mudiad. Wedi cinio Nadolig ardderchog yn 'Y Felin', diolchodd Menna i bawb a fu'n trefnu a sicrhau noson gymdeithasol braf. Anfonwyd cofion annwylatnifero aelodau na allent fod yn bresennol a dymunwyd adferiad iechyd buan i Heulwen a Mair Parry sy'n derbyn triniaethau yn yr ysbyty.

Ar Chwefror 6ed gofynnir yn garedig i ni wisgo rhywbeth coch at 'Ymchwil y Galon', sef elusen Mudiad Merched y Wawr eleni. Cytunwyd i gyfrannu arian raffl y noson ar gyfer gwaith ymchwil i achub bywydau. Mae elusen y Galon yn dibynnu'n llwyr ar gyfraniadau cyhoeddus i helpu pobl o bob oed.

Darllenwyd llythyr gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, yn pryderu am y cynnydd sylweddol yn y cwynion gan y cyhoedd am wasanaethau Cymraeg banciau'r Stryd Fawr. Gwahoddir unrhyw un i gyflwyno tystiolaeth i'r arolwg ynglŷn â'ch profiadau chi o ddefnyddio'r Gymraeg. Wedi casglu tystiolaeth llunir casgliadau a chyfres o argymhellion er mwyn gwella profiad cwsmeriaid yng Nghymru o ddelio â banciau drwy gyfrwng eu mamiaith. Gellir cyflwyno tystiolaeth i'r arolwg ar e-bost, sef post@comisiynyddygymraeg.org, neu drwylythyr: Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1AT, neu ar y ffôn 0845 6033221.

Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ar Sadwrn, Mai 9fed, yn Ysgol Friars am 9.30 y bore. Pery'r tâl yn £20, sy'n cynnwys coffi a chinio. Gwahoddir 'Cyfarchion Stondin Llinos' a'r artistiaid fydd Siân Wheway, Dafydd a Math Roberts., John Pierce Jones, Aled Hughes yn sgwrsio

â Dyddgu Hywel ac Elin Haf Davies gyda Band 6 i gloi.

Cynhelir Gŵyl Haf yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth, ar Fai 16 gyda chystadlaethau Crefft, Calon/ Calonnau unrhyw gyfrwng, Crefft ar y thema 'T. Llew Jones – caligraffeg, peintio, clawr llyfr, brodio; Ceginio – Calon/ Calonnau, teisen, swigr eisin ayyb.

Cynhelir Cinio'r Llywydd Cenedlaethol, Meryl Davies, yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ar ddydd Sadwrn, Ebrill 18 – adloniant Steffan Rhys Hughes a chyfaill. Atgoffir pawb am y prosiect gyda elusen 'Ategolion at y Galon' pryd y cesglir cyfareddwyr (fascinator) menyg, sgarffiau, beltiau a gemwaith – wedi eu didoli'n barod os gwelir yn dda. Y cyntaf i ymateb gyda thâl gaiff le.

Gwraig wadd y nosn oedd Ffion Nicholson yn sôn am 'Fyd y Fferylllydd'. Diolchir iddi am ddod ar fyr rybudd – ei chwaer Alwen oedd i fod i ddod – hithau hefyd ym myd fferylliaeth. Y ddwy wedi derbyn eu haddysg yn ysgol Maesincla ac Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon a mawr oedd balchter Phyllis Elis o fod yn rhan fawr o'u haddysg ym Maesincla. Syfrdanwyd ni wrth iddi olrhain y gwastraff o feddyginiaethau a ddangosir ac anogir ni i werthfawrogi y meddyginiaethau drudfawr a gawn. Gellir cael fferyllwyr i ddod i'r cartrefi i ddiolli gan arbed miliynau o bunnoedd bob blwyddyn. Bu'n orig ddifyr a gwerthfawr dros ben a chafwyd digon o gyfle i ofyn cwestiynau a chael ateb pendant bob tro, a hynny'n llawn cynghorion.

Diolchir i Carys Wyn, Helen Parry a Gwenda am ofalu am y te. Enillydd y raffl oedd Jennie, dysgwraig ffyddlon yn y gangen.

Chwefror 10fed cawn gwmni'r Archeolegwr, Rhys Mwyn, gyda 'Beth yw Archaeoleg?'

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Dylan Griffith
Trefnw'r Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

EIN GWIR HANES

Yn y flwyddyn newydd hon bydd Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yng Nghlynnog yn parhau gyda’r gyfres arloesol, “Ein Gwir Hanes”. Eisoes trefnwyd tri chyfarfod i edrych yn fanylach ar gyfnodau allweddol yn hanes ein gwlad ac fe hyderwn y bydd gan ein cyd-Gymry ddiddordeb mawr mewn clywed amdanynt. Dyma’r dyddiadau i’ch dyddiaduron:

Chwefror 7fed 2015: Thomas Gee a Rhyfel y Degwm.

Mai 16eg 2015: Y Brythoniaid a’r Hen Ogledd mewn Hanes a Llên.

Hydref 17eg 2015 : Tuduriaid Penmynydd: Meibion Darogan?

(Pob cyfarfod yn dechrau am 10.30 ac yn dod i ben tua 2.30pm)

Fel arfer, rydym wedi sicrhau siaradwyr brwd o’r safon uchaf sydd yn dra hyddysg yn eu meysydd.

Y cyn-Aelod Cynulliad a Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones, a’r hanesydd a’r awdur toreithiog Bob Morris fydd yn ein harwain yn ystod cyfarfod mis Chwefror. Yn y bore, Ieuan Wyn Jones fydd yn cloriannu bywyd a dylanwad y newyddiadurwr radical ymneilltuol Thomas Gee a fu mor allweddol yn hanes Rhyfel y Degwm. Ieuan yw awdur y cofiant ardderchog diweddar i Thomas Gee. Cawn gefndir a hanes cyffrous Rhyfel y Degwm gan Bob Morris. Achos y werin bobl yn gwrthryfelu’n ddewr yn erbyn anghyfiawnderau ydyw ac er bod cymaint o sylw wedi ei dalu i ‘Helynt Beca’ yn ne Cymru, yma yn y gogledd helyntion Rhyfel y Degwm oedd y digwyddiad mawr. Ni chafodd hanner y sylw a haedda ac nid ydyw mor hysbys i’n cenedl ag y dylai fod.

Felly, dyma gyfle gwych i chi ymgyfoethogi yn ein gwir hanes yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Rhan gyson o genhadaeth arloesol Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yw’r cyfarfodydd Ein Gwir Hanes, a ni chodir tâl o gwbl. Darperir paned a chroeso cynnes, ond rhaid i fynychwyr ddod â bocs bwyd gyda nhw.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â ni:

Ffoniwch: 01286 660 546/853/655

E-bostiwch: canolfanuwcgwyrfa@gmail.com

‘Anghofio yw bradychu’.

Mwy o bŵer solar i Gyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi mewn paneli solar mewn 32 o safleoedd ychwanegol i gynhyrchu trydan, gan ddod â chyfanswm y gosodiadau i 54.

Bydd y paneli solar hyn yn arbed oddeutu £1.5 miliwn i’r Cyngor dros fywyd y prosiect, a digon o garbon deuocsid i lenwi 4,060 balŵn aer poeth.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Amgylchedd:

“Fel Cyngor, rydym yn falch o allu dweud ein bod bellach yn defnyddio ynni adnewyddadwy yn nifer o’n safleoedd. Mae hyn yn helpu’r Cyngor i leihau ein ôl-troed carbon ynghyd â gwneud arbedion ariannol ar ein biliau trydan.

“Yn naturiol, nid ydynt yn cynhyrchu’r holl drydan sy’n cael ei ddefnyddio ar y safleoedd hyn, ac felly mae hi’n dal yr un mor bwysig i ni barhau i wneud defnydd effeithlon o ynni, ynghyd â buddsoddi mewn technoleg carbon isel a gwella adeiladau.

“O’r 54 safle sydd â phaneli solar, mae 41 ohonynt yn ysgolion. Rydym hefyd wedi sicrhau bod data ar gael i’r ysgolion hynny i addysgu’r disgyblion ynghylch pŵer solar.”

Mae 16 o’r safle y rhoddwyd paneli solar ynddynt ddwy flynedd yn ôl eisoes wedi cynhyrchu 294,700kWh o drydan – mae hyn wedi arbed digon o garbon deuocsid i lenwi 130 balŵn aer poeth ac mae wedi arbed £74,000 i’r Cyngor.

Mae Cyngor Gwynedd eisiau lleihau ei ôl-troed carbon 30% erbyn diwedd mis Mawrth 2015 – targed uchelgeisiol a heriol iawn. Y llynedd, fe wnaeth y Cyngor leihau’r ôl-troed carbon 25% gan arwain at arbedion ariannol o £600,000 y flwyddyn yn y biliau ynni.

Mae rhai o’r safleoedd sydd â phaneli solar bellach yn cynnwys Ysgol Dyffryn Ogwen ym Methesda, Ysgol Abererch ac Ysgol Uwchradd Tywyn.

Mae prosiectau eraill sydd wedi cynorthwyo’r Cyngor i leihau ôl-troed carbon yn cynnwys buddsoddi mewn gorchuddion pyllau i gadw’r gwres mewn pyllau nofio dros nos, uwchraddio hen fwyleri aneffeithiol ac uwchraddio goleuadau i ddefnyddio bylbiau mwy effeithiol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Gareth Roberts: “Drwy arwain y gad i leihau’r ôl-troed carbon a’r effaith rydym yn ei chael ar yr amgylchedd, rydym yn gobeithio gallu dangos esiampl dda i’n cymuned ac annog eraill i ddilyn ein hesiampl. Nid oes rhaid i chi wario miloedd o bunnoedd ar dechnoleg glyfar i arbed ynni – gallwn oll arbed ynni drwy wneud y pethau nad ydynt yn costio’r un geiniog, megis defnyddio lein ddillad pan fo’r tywydd yn braf, diffodd offer pan nad ydym yn eu defnyddio a golchi’n dillad ar 30 gradd.”

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonias.co.uk




Caffi Caban

ar agor


9 y bore tan 4 y pnawn- 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad

Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig , Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffy a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)





Cafodd y Sioe Deithiol Amgylcheddol ei threfnu gan Gyngor Gwynedd a'i hariannu gan fenter Trefi Taclus Llywodraeth Cymru. I wybod mwy am y Trefi Taclus, cysylltwch â Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 neu e-bostiwch trefitaclus@gwynedd.gov.uk

 **PROBLEM GYDACH
CYFRIFIADUR ?**

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a
GWELLA EICH CYFRIFIADURON
CYSYLLTWCH A

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gofnodion y 6ed o Ionawr 2015.

Cyfarfod olaf y Clerc. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei waith am 14 mlynedd a chroesawodd Mrs Eleri Bean, y Clerc newydd.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd.

Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod y 7ed o Dachwedd 2014.

Dywedodd y cadeirydd y cynhwysir Eco'r Wyddfa a Llais Ogwan yn "Llyfrau Llafar Cymru" os bydd angen cyfiawnhau'r cyfraniad ariannol.

Presept y Cyngor am 2015-16.

Trafodwyd sefyllfa ariannol y Cyngor, dywedodd y Clerc bod oddeutu £10,000 mewn llaw ddiwedd y llynedd a dylai tua'r un faint fod drosodd eto ddiwedd Mawrth 2015.

Penderfynwyd ceisio am yr un swm ag eleni sef £13,000.

Materion o'r cofnodion.

Cysylltu â'r wefan - Dywedodd Phyllis Ellis bod Cyngor Llanrug wedi defnyddio Cwmni "Delwedd" ar gyfer cysylltiad ac wedi derbyn gwasanaeth da. Penderfynwyd cysylltu â hwy.

Polisi Iaith

Dywedodd Phyllis Ellis bod Cynghorau Pen Llŷn wedi gofyn i'r Comisiynydd Iaith Meri Huws ynglŷn â gweithredu yn uniaith Gymraeg. Ateb Meri Huws oedd y gellid gweithredu yn uniaith Gymraeg cyn belled a bod ganddynt Bolisi Iaith Statudol.

Addawodd y Clerc gael golwg ar bolisi'r Cyngor a'i gyfeiriad at yr Iaith ac anfon copi ohono i bob aelod gyda rhaglen Chwefror.

Derbyniwyd drafft o bolisi yr awgrymir gan Gynghorau Pen Llŷn.

Blwch postio, Y Waun - mae'n amlwg bod Y Swyddfa yn gwneud esgusodion yn lle ail osod y blwch.

Blwch postio Deiniolen. Dywedodd Idris Thomas bod y rhybudd "Bore yn unig" sydd ar y blwch yn gam-arweiniol - cesglir y post ar ôl pedwar o'r gloch. Neuadd Bethel. Cafwyd adroddiad gan Geraint Elis o'r drafodaeth ynglŷn â chaniatau trwydded diodydd i'r Neuadd. Caniatwyd y cais. Diolchwyd i Geraint Elis gan y Cadeirydd am ei gyfraniad a'i bresenoldeb yn yr achos. Mynwent Macpella, Deiniolen. Cyflwynwyd ateb Gwynedd ynglŷn â'r nifer o lecynnau sydd ar ôl yno. Eglurodd Idris Thomas y bydd llai o gladdu ym mynwent Llandinorwig o hyn ymlaen felly bydd mwy o angen lleoedd ym Macpella. Addawodd Elfed Williams ddwyn y mater i fyny gyda Mr Alun Wyn Jones, Cyngor Gwynedd.

Llwybr beicio rhwng Llanberis a Nant y Garth - eglurhad Gwynedd nad oes cyllid ar ei gyfer ar hyn o bryd.

Materion ffyrdd.

Torri coed, ffordd Clwt y Bont - wedi ei wneud.

Cyflwr ffyrdd ym Mrynrefail - ateb Gwynedd bod gwaith dros dro wedi ei drefnu. Llythyr eto i Wynedd i bwysu ar yr angen am ail-wynebu'r ffyrdd yma.

Torri coed, Dinorwig - llythyrau wedi eu hanfon i berchnogion tir.

Ffôsdydd Rhiwlas - wedi derbyn sylw gan y Gang Gymunedol ac arolygwr wedi cyfarfod perchennog Cefn Braich.

Ffyrdd Rhiwlas - ar restr Gwynedd o leoliadau angen sylw.

Ffordd ger gwaith dŵr Deiniolen - dywed Gwynedd eu bod wedi dechrau ar y gwaith. Dywedodd Philip Jones eu bod wedi paentio "Araf" ar wyneb

y ffordd.

Golau ychwanegol yn Hafod Olau, Deiniolen. Trafodwyd pris Gwynedd o £3,400 am uned goleuo a gwasanaeth trydan tan dddear a theimlwyd ei fod yn afresymol o uchel.

Pasiwyd i dalu am y gosodiad. Awgrymodd Idris Thomas ofyn i "Tai Cymunedol Gwynedd" am gyfraniad. Penderfynwyd disgwyl ateb TCG cyn archebu'r gwaith.

Gorfodaeth parcio. Ateb Gwynedd mai ond un swyddog gorfodaeth oedd yn Llanberis yn ystod Ras yr Wyddfa. Gweddi y llythyr yn pwysleisio ar ddiogelwch y ffyrdd a'r pwysigrwydd o blismona.

Llecyn parcio ger Llys Gwynt, Llandygai. Ateb Gwynedd iddynt dderbyn cais yr Heddlu i rwystro cerbydau rhag parcio yno. Maent yn y broses o gyfyngu parcio ar y safle yma a monitro'r sefyllfa. Eto, maent yn cyfaddef bod hyn yn anffodus gan bod cymaint o rannu ceir yn digwydd oherwydd y safle ond ni ellir anwybyddu sylwadau'r Heddlu.

Mudiadau gwirfoddol. Derbyniwyd gair o ddiolch am gyfraniad y Cyngor oddi wrth holl fudiadau'r ardal a Llyfrau Llafar Cymru

Gohebiaethau a materion eraill.

Quarry Battery, Glyn Rhonwy, Llanberis. Darllenwyd eu disgrifiad (Saesneg) o'r cynhyrchydd a fwriedir. 49.9MW oedd y bwriad gwreiddiol ond penderfynwyd ei godi i 99.9MW. Penderfynwyd ateb trwy lythyr yn gofyn pa elw mae'r gymuned i'w dderbyn drwy ddyblu y cynhyrchiad, ac os oes sicrwydd gwaith i bobl leol, gan hefyd ddefnyddio cwmnïau lleol.

O Gwmpas y Bwrdd.

1 Carolyn Roberts. Gwir angen ail-wynebu'r ffordd ger y cae chwarae, hen capel ac wrth y bont.

2 Jane Pierce. Anhawster cael bin mawr - addawodd Sion Jones ddatrys y sefyllfa.

3 Philip Jones - biniau'n cael eu chwythu o gwmpas ac yn achosi perygl o ddamweiniau

4 Elfed Williams. Bygythiad Gwynedd i gau llyfrgelloedd Deiniolen a Llanberis - Ysgrifennu llythyr o wrthwynebiad i Mr Hywel Jones, Prif Lyfrgellydd Gwynedd.

Cyflwynodd Idris Thomas ddogfen yn gwrthwynebu cau llyfrgelloedd ac addawodd gopi i'r Clerc i'w ddanfon ymlaen at Ioan Tomos aelod o Gabinet Gwynedd.

5 Sion Jones. Angen bin wrth ochr y ffordd o Siop Bethel lle mae caniau ayyb yn cael eu lluchio. Cost bin newydd £100 a £156 y flwyddyn am ei wagio. Trafodwyd hyn a phenderfynwyd prynu bin ond peidio talu am ei wagio.

Sion Jones - cae pêl droed Bethel. Dywedodd Sion y bydd angen tua £520,000 i ddod â'r cae i safon derbynol. Bydd grant ar gael o ffynonellau mawr fel y Loteri Cenedlaethol, Cist Gwynedd, Cronfa Tywysog Cymru ayyb ond rhaid cael addewidion lleol cyn derbyn ystyriaeth rhain. Trafodwyd y cais yn drwyadl gan amlygu na allai'r Cyngor Cymuned ystyried rhodd enfawr. Gwnaed llawer o awgrymiadau ond dywedodd Geraint Elis y gellid ystyried y cais fel unig gais Bethel am un flwyddyn a chyfuno holl roddion mudiadau Bethel, sef £1300 yn 2014, fel cyfraniad y Cyngor.

6 Phyllis Ellis. Angen ail-wynebu ffordd Perthi, Penis'rwaun. Problemau baw cŵn yn gwaethygu yn y pentref - gwahodd y Warden Cŵn i gyfarfod aelodau.

Cynllunio.

Codi estyniad - Ger y Coed, Dinorwig.

Llwybrau.

Danfonwyd cais i Gyngor Gwynedd am ad-daliad cost torri gwair sef £698.10 allan o gyfanswm o £985.



ORIEL CWM
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiâu ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch **(01248) 361044**

D. P. OWENS RHIWLAS



FFARWELIO A CHROESO



Roedd hi'n noson arbennig yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen ddechrau Ionawr. Ar y noson roeddem yn diolch i'r Clerc, John Jones, Ceris, Deiniolen am 13 blwyddyn o wasanaeth clodwiw i'r Cyngor ar ei ymddeoliad. John ddaeth yn glerc wedi ymddeoliad Selwyn Griffith. Tipyn o esgidiau i'w llenwi ond llwyddodd John i ennyn parch y cyngor yn fuan iawn. Mae John yn meddu ar ysbryd cymdeithasol y gall ardal Deiniolen dystio iddi dros sawl blwyddyn. Nid yw hiwmor yn bell oddi wrth John chwaith, bron iawn mor agos â'r mwgyn! Un o ddyletswyddau pob clerc hefyd yw bod yn Swyddog Ariannol y Cyngor. I'r fath swydd beth gwell na Chardi rhonc. Nid yw'r gwreiddiau draw ym Mhen Rhiw Llan wedi gadael John erioed.

Roedd John yn drylwyr iawn ei gofnodion a'i lythyru. Rhaid cofio bod Cyngor Llanddeiniolen yn unigryw iawn. Tu mewn i'w ffiniau mae sawl pentref poblog – Dinorwig, Deiniolen, Clwt y Bont, Brynrefail, Penisarwaun, Bethel, Seion a Rhiwlas.

Dros ei gyfnod gwelwyd cryn ddatblygiadau a newidiadau mewn Cynlluniau Datblygu. O dan ei arweiniad a gyda gweledigaeth Gareth Roberts cyhoeddwyd Mapiau a Hanes y Plwyf. Mae'n glod fod y syniad yma wedi magu gwreiddyn mewn sawl plwyf pell ag agos bellach. Hefyd ar ddathliad y Mileniwm llwyddwyd i gefnogi pob Ysgol Gynradd yn y plwyf trwy gyflwyno 'bwrdd gwyn rhyngweithiol' i bob un.

Pwysig nodi hefyd mai am un o'r plwyfi mwyaf yng Nghymru mae'r dreth a godir gan y Plwyf ymysg yr isaf. Serch hynny, llwyddir i ddosrannu tua £4000 i gymdeithasau a mudiadau'r plwyf. Dros y cyfnod hefyd bu John yn daer ei safiad dros Gymreictod naturiol y Plwyf. Yn bennaf, llwyddodd i gadw trefn ar Gyngor gweithgar gyda phob aelod yn naturiol yn 'cwffio' i gornel' dros ei batch ei hun.

Rydym yn diolch i John am 'ddiwrnod da o waith'

Yn amlwg, roedd y Cyngor yn poeni am olynydd mewn cyfnod anodd denu. O fewn ychydig wythnosau o'r hysbyseb cafwyd ymateb – eto o Ddeiniolen. Ymgeisiodd Eleri Bean, sydd eisioes yn weithgar gyda sawl mudiad yn Neiniolen. Cynhaliwyd cyfweiliad ble daeth yr elfennau cymdeithasol i'r amlwg. Gyda phleser roedd yr is-banel apwyntio yn falch o gymeradwyo cais Eleri. Y ferch gyntaf i ddal y swydd yn hanes y Cyngor. Edrychwn ymlaen i gydweithio iach dros gyfnod o amser. Croeso Eleri.

Y warden i'n plwyf fu'r Cardi – i John

mwy na job, er boddi

dan bapur, caed tosturi'n

hybu cais neu gŵyn 'baw ci'.

Richard Lloyd Jones

Cadeirydd, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 o Rhagfyr 2014

Heddwys Cymunedol Lleol

Cyflwynodd yr Heddwys Cymunedol Lleol, Ian Rooksby, ei hun i'r aelodau ac adroddodd ar ei drefn weithio. Eglurodd fod dau Heddwys Cymunedol yn gweithio o orsaf Llanberis ac ar hyn o bryd yn gwasanaethu ardaloedd Llanberis, Rhiwlas, i fyny i Ben y Pas ac at Bontrug. Eglurodd ei fod yn falch o glywed am unrhyw ddigwyddiadau yn yr ardal ac aeth ymlaen i ymhelaethu fod ardal Llanrug yn dda iawn ar lefel troseddau o'i chymharu â chymunedau eraill. Eglurodd hefyd ei bod yn ofynnol i'r heddlu flaenoriaethu galwadau a bod ei alwadau yn disgyn i categorïau o ddigwyddiadau domestig, troseddau yn ymwneud â cheir, ac addysgu pobol o ddiogelwch eu heiddo.

Awgrymwyd y gallai'r swyddog greu meddygfa agored yn y Neuadd Goffa fel y gall ein trigolion ei fynychu.

Esboniodd yr heddwys fod swyddog cyswllt ysgolion yn addysgu plant Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail ar wahanol agweddau o droseddau.

Eglurwyd eu bod heb ddefnydd car heddlu yn Llanberis yn ddiweddar ac wedi gorfod dibynnu ar wasanaethau bysiau, yn ogystal â defnyddio ceir plaen yr heddlu.

Mynegwyd mai'r prif gonsym oedd diffyg presenoldeb heddlu yn yr ardal. Fe gytunodd y Swyddog ar hyn ond oherwydd fod y car yn ôl, yna bydd yn gallu ymweld yn amlach ac oherwydd fod y car wedi ei farcio, yna bydd yn hawdd i'r cyhoedd ei adnabod.

Erfyniodd y Swyddog ari'r aelodau gysylltu ag ef ac fe ddosbarthodd ei fanylion cyswllt. Pwysleisiodd mewn rhai amgylchiadau y dylid ffonio 101 oherwydd doedd dim sicrwydd ei fod yn gweithio ar y pryd.

Holwyd a oedd ystadegau ar gael am bresenoldeb yr heddlu yn Llanrug. Ymatebodd y Swyddog drwy ddweud ei fod yn bwriadu dod i gyfarfodydd o'r Cyngor ym amlach a croesawyd hyn

Cofebau Cwm y Glo

Ategwyd penderfyniad Cyfarfod mis Tachwedd mai mater i aelodau Cwm y Glo yw hyn ac na fydd y Cyngor Cymuned yn ymyrryd.

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod disgyblion Ysgol Brynrefail wedi bod oddi amgylch yn tacluso a glanhau rhywfaint o amgylch yr afon ger Ogwen.

Sylwadau ar geisiadau cynllunio

Doedd dim gwrthwynebiad i'r Ceisiadau Cynllunio canlynol:

- Codi Modurdy – 14 Rhythallt Terrace, Llanrug
- Estyniad deulawr – 2 Carreg y Fran, Cwm y Glo

Ceisiadau am Gymorth Ariannol

Penderfynwyd rhoi grant o £700 yr un i Glwb Pêl-droed Llanrug

Unedig a Chlwb Pêl-droed Llewod Llanrug.

BOSCH Service
Car Service

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AA MOT **ATC** **Shell** **BOSCH Car Service**

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION RHAGFYR 2014:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Fawrth yr 16eg o Ragfyr, 2014 am 7 yr hwyr.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Helen Sharp, Trystan Thomas.
Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Eurig Druce, Derek Jones.

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 18fed o Dachwedd, 2014 fel rhai cywir, ag eithrio un newid bach. Cofnod Rhif 11, 1 ac nid 2 a wnaed yn ddi-waith ym Mharc Padarn. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio:

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

Llinellau Melyn / Grid Gwartheg:

Yn ôl un o swyddogion Cyngor Gwynedd (CG) roedd bwriad i osod llinellau melyn o Bentre Castell i lawr y ffordd er mwyn atal parcio ar y glaswellt. Does dim sôn pellach am rannau eraill y pentref. Mae gwaith papur ar gyfer y grid gwartheg wedi ei golli, ond dywedodd y Clerc ei fod yn gobeithio cael copiau cyn diwedd yr wythnos.

Adwy Ffordd Haearn:

Mae'r pileri llechi wedi eu gosod bron i gyd i greu cefndir i'r planhigion ac addewid am gynllun plannu gan ffrind i Iola Owen.

Y We:

Cafwyd adroddiad fod cymru1.net yn barod i greu gwefan yn seiliedig ar un sy'n debycach i Borthmadog na Llandwrog. Yn symlach yn ei hanfod ond yn addas i adeiladu arni a'i haddasu yn y dyfodol.

Cost tua £500, cofrestru tua £15 ac yna taliad misol o tua £13 i'w chadw ar y We.

Bydd y cynnwys yn ymddangos fel ffeiliau i'w lawrlwytho oni bai eu bod yn dudalennau unigol syml. Bydd angen lluniau, o leia un o'r Nant ac un o Lanberis, i roi ar y dudalen agoriadol. Yr adeiladwr fydd yn gosod y deunydd ar y wefan. Fydd dim cost am osod dogfen syml fisol fel Cofnodion, rhywbeth a gymer ddau funud ond yn naturiol bydd tâl am waith mwy sylweddol. Penderfynwyd bwrw mlaen gan ddechrau yn Gymraeg.

Cysgodfan Bws Newydd:

Edrychwyd ar nifer o wahanol ddyluniadau ar gyfer y gysgodfan. Roedd yr aelodau yn ffafrio'r Halton Anti Vandal. Penderfynwyd gosod y gysgodfan gyda'r wal at y stryd er mwyn cael cysgod. Gosodir hi lathen neu ddwy i'r dwyrain o'r polyn a'r codiad yn y palmant. Mae cais am ei gosod wedi ei anfon at CG a bydd y Clerc yn cyfarfod un o swyddogion y Cyngor ymhen yr wythnos. Ffens Parc Bach:

Cwblheir y gwaith yn gynnar ym mis Ionawr.

Lôn Las Peris:

Mae wedi ail agor.

Llwybrau:

Derbyniwyd ad-daliad llawn oddi wrth CG am gost y gwaith torri glaswellt a thwtio llwybrau yn ôl yn yr haf.

GOHEBIAETH:

Quarry Battery:

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Reolwr Gyfarwyddwr y cwmni sydd â'i fryd ar adeiladu cynllun trydan dŵr yng Nglyn Rhonwy a Chwarel Fawr, Cefn Du yn nodi bwriad y cwmni i ddyblu maint y cynllun. Rhoddwyd caniatad gan yr awdurdod cynllunio lleol (CG) i gynllun cynhyrchu 49.9MW o drydan. Rwan mae'r cwmni, oherwydd anogaeth y Llywodraeth i gynlluniau mwy, yn mynd at yr Arolygiaeth Gynllunio (Planning Inspectorate) i geisio caniatad i gynyddu'r cynllun i 99.9MW. Mae caniatad yr Arolygiaeth yn ofynnol i unrhyw gynllun dros 50MW. Bydd y cais yn cael ei gyflwyno yn fuan.

GRANTIAU 2014:

Trafodwyd ceisiadau a phenderfynwyd na fyddai pawb a wnaeth gais yn derbyn arian eleni. Mewn un achos teimlwyd fod gan y mudiad arian digonol wrth gefn. Unwaith eto mynegwyd anfodlonrwydd fod un neu ddau o fudiadau a dderbyniodd grant wedyn yn rhoi cymorth i fudiadau eraill. Penderfynwyd peidio cefnogi mudiadau cenedlaethol ag eithrio'r Eisteddfodau. Yn y dyfodol penderfynwyd rhoi hysbyseb ar gyfer y Mân Gymorthdaliadau yn Eco'r Wyddfa mis Mai a phenderfynu arnynt yng nghyfarfod y Cyngor yn Mehefin. Penderfynwyd paratoi ffurflen ar gyfer gwneud cais. Cyn hynny bydd angen paratoi canllawiau ar gyfer cynnig grantiau.

Rhoddwyd grantiau i'r canlynol

Cymdeithas Undebol Llanberis: 250.00

Râs yr Wyddfa 2014: 1,000.00

Clytweithwyr Peris: 250.00

Geidiaid. Brownies a Rainbows Llanberis: 500.00

Parti Merched Bythol Wyrdd: 200.00

Cynllun Eglwys EFE, Dyffryn Peris: 150.00

Y Festri, Llanberis: 600.00

Eco'r Wyddfa [Papur Bro]: 500.00

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerffili: 150.00

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Maldwyn a'r Gororau: 150.00

Roedd Clwb Ieuencid Llanberis, Pwyllgor Gefellio Morbegnio a'r Ysgol Feithrin eisoes wedi derbyn arian yn gynharach eleni.

CYNLLUNIO: WEDI EU CANIATÂU

APCE: Caniatáu:

NP3/15/AD180D – Cais am Ganiatâd Hysbysebion i arddangos 1 panel gwybodaeth – Maes Parcio Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis. Mae'r hysbysfwrdd yma yr un fath a'r tri a oedd dan sylw fis yn ôl o dan CG. – wedi ei ganiatáu.

MATERION ARIANNOL:

a) Yn y Banc ar yr 28ain o Tachwedd, 2014

Cyfrif Cyfredol: £19,139.46; Cyfrif Cadw: £5,335.51

Taliadau'r mis: £4662 Derbyniadau: 0.25p

Y Fynwent:

Cytunwyd fod angen ailedrych ar reolau Mynwent Nantperis. Penderfynwyd hefyd derbyn pris DWL am dorri gwaith. Bydd y gost £10 y mis yn ddrutach nag eleni. Bu'r pris yn sefydlog er tro byd.

ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL:

Ysgol Dolbadarn

Adroddwyd i'r ysgol gynnal Ffair Nadolig lwyddiannus iawn, gyda arian a godwyd yn cael ei ddyblu gan Fanc Santander.

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—


Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

‘Llety Arall’ i groesawu’r byd i Arfon



Sel Jones a Menna Machreth tu allan i'r adeilad ar Stryd y Plas, Caernarfon, lle gobeithio y bydd ‘Llety Arall’)

Mae cynllun newydd ar droed i ddechrau menter newydd yng Nghaernarfon. Y syniad yw cynnig llety i ymwelwyr gael profiad o'r ardal a'u cyflwyno i'w threftadaeth a'n hiaith.

Gobaith criw ‘Llety Arall’ yw dechrau menter gydweithredol – sef busnes er budd y gymuned. Bydd cyfle i bobl Caernarfon a thu hwnt i fuddsoddi yn y busnes trwy brynu cyfranddaliad, neu gyfrannu eu sgiliau i helpu llwyddiant y llety.

Mae'r enw unigryw ‘Llety Arall’ yn dod o'r awydd gan y criw i wneud rhywbeth annibynnol ac amgen, gan efelychu'r ysbryd sydd y tu ôl i'r wyl lwyddiannus, Gŵyl Arall.

Un o'r bobl sydd y tu ôl i'r syniad yw Sel Jones, Llanrug. Meddai Sel am y cynllun:

‘Rhan mawr o'r cynllun yw hybu diwylliant a threftadaeth yr ardal ac fe fydd y llety yn rhiniog drws i ymwelwyr sydd eisiau profiad o'r treftadaeth hwnnw. Mae'n treftadaeth llechi yn rhan bwysig o hanes yr ardal ac yn sicr byddem eisiau bod ymwelwyr â'r llety yn ymwybodol o hynny ac yn ymweld â

mannau yn lleol i Gaernarfon lle gallent ddysgu mwy am y dreftadaeth hwnnw.

‘Mae diddordeb mawr wedi bod yn y cynllun eisoes. Y nod yw casglu gwerth £100,000 o gyfranddaliadau ac mae'r criw wedi bod yn gofyn i bobl i ymrwymo i gyfrannu £250 (sef un cyfranddaliad, naill ai mewn un taliad neu trwy dros dwy flynedd). Mae addewidion am werth £42,000 o'r swm hwnnw wedi eu rhoi eisoes sy'n dangos y brwdfrydedd ynghylch y syniad. Nid dim ond trwy arian y gellir cyfrannu chwaith – gellir cyfrannu llafur neu sgiliau a fydd yn gyfwerth ag un cyfranddaliad o £250. (Os na fydd y cynllun yn mynd ymlaen, mae addewid i ad-dalu o leiaf £200.)

Y gobaith yw prynu adeilad ar Stryd y Plas (sef yr adeilad lle'r oedd siop 14th Peak) sydd ar werth ar hyn o bryd.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch drwy e-bostio post@lletyarall.org neu gysylltu â Sel Jones,

**"FFONIWCH DIONI I GAEL
'BWCINGS' YCHWANEGOL
DROS Y GAEAF"**

tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



DIONI

**ECO'r
Wyddfa**

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**



**FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC**

**Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING**

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269



Ar ben arall i'r lein

Dwi'n gwybod fy mod wedi bod fel tiwn gron er 2009 gyda ymdrechion y gymdeithas i gael trefn ar broblemau Llyn Padarn a'r awdurdodau yn dadlau yn ffyrnig eu bod wedi gweithredu o fewn y gyfraith. Dŵr Cymru yn y canol yr un mor bendant eu bod hwythau heb wneud dim o'i le ac yn gweithio yn llwyr o fewn eu trwyddedau o arllwys gweddillion i'r llyn.

Do fe ddaeth pethau i ben yn ystod Mai 2014 pan ddisgynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru a'u meistri, sef ein llywodraeth i lawr yng Nghaerdydd, ar eu cleddyf eu hunain a rhoi addewid i'r Uchel Lys y buasai ail archwiliad yn cael ei gynnal i geisio dod i benderfyniad pwy ta be oedd yn gyfrifol am yr holl lanastr. Ia, ail archwiliad oedd hyn, gan fod y gwaith cyntaf yn hollol warthus ac yn erbyn cyfreithiau amgylcheddol Ewrop. Wel mae'n rhaid diolch i Ewrop am rai pethau gan fod ein llywodraeth ni ein hunain wedi ceisio bob ffordd i roi cic enfawr o'r golwg i broblemau ein bro. 'Rydym fel clwb yn teimlo fod ymddygiad ein llywodraeth yn y mater yma wedi bod yn gywilyddus.

Fodd bynnag, fe gyhoeddwyd canlyniadau'r ail ymchwiliad rhyw ychydig cyn y Nadolig. Yr oedd rhan gyntaf yr adroddiad yn galonogol gan ei bod wedi dod i'r gasgliad mai Dŵr Cymru oedd yn gyfrifol am yr holl broblemau. Mae rhybudd wedi ei roi i'r cwmni yn ei orfodi i gyflwyno rhaglen o welliannau erbyn 15 Mawrth eleni. Da 'de - ond ble mae hyn yn disgyn i lawr, wrth gwrs, yw fod gan y cwmni yr hawl i apelio yn erbyn y rhybudd. Mwyaf tebyg dyma yn union fydd yn cael ei wneud.

Mae'r ail ran yn delio â'r pysgodfeydd ac yn anghredadwy! Maent wedi dod i'r canlyniad nad yw'r fath lygredd yn gyfrannol y gwbwl at ddirywiad y torgoch na'r un 'sgodyn arall. Nid oes cyfeiriad o gwbwl ar yr effaith mae adeiladu gorsaf bŵer Dinorwig wedi ei gael ac yn dal i'w gael ar golli llecynnau magu'r holl ddalgylch, na chwaith yr effaith mae'r carthffos heb ei drin a'r ffosffadau sy'n dal i redeg drwy'r arllwysfa di-restredig yng nghefn Tafarn Tywysog Cymru. Bydd rhaid disgwyl rai wythnosau er mwyn i'n cynrychiolwyr, sef Fish Legal, gael amser i ddadansoddi'r adroddiad a phenderfynu'r ffordd ymlaen.

Yn ogystal â'r adroddiad digalon yma, mae tipyn o grafu pen ar be sy'n mynd ymlaen tu mewn i goridorau pŵer yng Nghaerdydd na. Mae penderfyniad arall wedi ei gyhoeddi sydd ddim yn gwneud dim synnwyr o gwbwl, sef cau pob deorfa yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw y feddylfryd fod stocio yn gwneud niwed i gywirdeb genetig pob pysgodyn. Mae sail ymchwil gwyddonwyr

sydd tu cefn i'r polisi yma wedi ei canolbwyntio ar eogiaid Môr y Pasifig ac afonydd gorllewin Canada. Does neb wedi cysidro fod ein eogiaid ni yn y rhan yma o'r byd yn defnyddio Môr Gogledd yr Atlantig. Mae'r ddau bysgodyn yma yn hollol wahanol ac mae'n annheg cymharu y ddau gyda'i gilydd. Ond, wrth gwrs, does dim posib dal pen rheswm â neb mewn awdurdod pan mae gair gwyddonwyr yn cael ei gymryd fel Amen. A dyma, wyddoch chi, ydi'r union wyddonwyr sy'n mynd i fod yn rhan o gynllun sy'n mynd i roi dros £200,000 i'w pocedi i ddweud wrthym ni yma be sydd o'i le ar y torgoch. Mae gen o ofn fy mod i a llawer o'm cyd-deithwyr yn y byd pysgota lleol yn mynd yn fwy fwy o hen sinics, ac yn cyflyn droi at y syniad y buasai'n well i ni ein hunain reoli pethau'n lleol.

Ond tydi pob corff gyhoeddus ddim mor negatif, diolch i'r drefn, gan fy mod yn fy ffordd bach fy hun wedi bod yn cysylltu â rhai yn lleol i geisio eu cael i glirio a thacluso afonydd a nentydd oedd yn fannau claddu i'r brithyll brown. Y mis yma mae marciau llawn yn cael eu rhoi i Barc Cenedlaethol Eryri am weithredu o fewn ychydig amser i gais y gymdeithas i dactluso'r afon sy'n rhedeg drwy safle maes parcio Nant Peris. Diolch i Rhys Owen, Helen Pye a Rhys Wheldon am eu sylw a threfnu'r gwaith. Os buasai sefydliadau eraill sydd gyda'r hawl a'r gallu yn gweithredu yn gyflym fel hyn yna mi fuasai tipyn gwell trefn ar bethau.

Be arall sydd o'n blaenau tybed - wel y peth pwysicaf, wrth gwrs, i'w gofio ydi ailymaelodi. Rhaid i'r taliadau fod i law y trysorydd erbyn 1af Mawrth os am dderbyn y disgownt. Tipyn mwy o arian i fforchio allan wedyn cofiwch.

'Rwy'n dal i gasglu gwybodaeth am gyn-bysgotwyr y fro. Os oes unrhyw beth yn eich meddiant, dim ots pa mor hen, yna buaswn yn falch dros ben o gael golwg arno a gwneud copi. Mae'n bwysig cadw mewn cof sut oedd hi, a hefyd yr ymdrech sydd wedi ei roi i gadw a chynnal pysgota'r hen le 'ma. Diolch dros ben i Mrs Nerys Williams, nawr o'r Felinheli, am nodiadau pysgota ei diweddar ŵr Dafydd am ei ddyddiau ar Lyn Padarn, hefyd ei lun gyda'i gwch ym Mhen Llyn yn y 1960'au. Rwyf wedi dechrau rhoi hyn i gyd at ei gilydd ac efallai - ia efallai cofiwch y bydd y cwbwl ar ddisg a mewn rhyw drefn darllenadwy cyn diwedd y flwyddyn. Ond cofiwch, tydi hyn ddim yn addewid pendant, gan fy mod hefyd wedi dechrau ar glymu patrymau plu'r ardal wedi eu selio ar ddogfen o hen batrymau oedd yn cael eu defnyddio cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.



Beicwyr anghyfrifol.

Bu'r lagŵns yn Y Glyn, ar lannau Llyn Padarn yn gyrchfan boblogaidd i blant a phobl ifanc lleol yn ogystal ag i ymwelwyr yn ystod misoedd yr haf, a'r pontŵn sy'n ymestyn allan i un o'r lagŵns yn hynod brysur. Ond yn ôl Cyngor Gwynedd, mae beicwyr anghyfrifol yn bygwth dyfodol y pontŵn ar gyfer misoedd haf eleni. Mae'n ymddangos fod

beicwyr (ac nid plant mohonynt, ond oedolion a ddylai wybod yn well) yn defnyddio'r pontŵn fel ramp, ac yn hyrddio eu beiciau arno cyn neidio i'r dŵr. Gallai ymddygiad o'r fath niweidio'r ramp a golygu na chaiff ieuenctid y fro fwynhau'r un hwyl yn ystod yr haf sydd i ddod. Gair i gall felly...



Cofnodi adeiladwyr Cymreig yn Lerpwl.



Mae Frank Green, sy'n wreiddiol o Swydd Amwythig, ond sydd wedi byw ym Mhontrug ers blynnyddoedd bellach, ac yn rhugl ei Gymraeg, wedi bod yn cofnodi Lerpwl ar ganfas ers bron i hanner can mlynedd. Yn ddiweddar mae wedi canolbwyntio ei ddiddordeb ar strydoedd yr adeiladwyr o Gymru fu'n gymaint rhan o ddatblygiad rhyfeddol y ddinas o ganol yr unfed ganrif

ar bymtheg. Dyna'r hanes sy'n cael ei gofnodi ganddo mewn arddangosfa o'i luniau ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog ac mewn llyfr dwyieithog a gyhoeddwyd ddiwedd Ionawr. Dywedir yn aml mai Lerpwl yw prifddinas gogledd Cymru. Mae'r llyfr hwn yn dangos fod brics a mortar wedi bod yn gymaint rhan o'r honiad hwnnw.

Chwaraeon

AIL GYNNAU TÂN AR HEN AELWYD

A'r eira ar y topia trofi i fyd criced. Gyda cwmni Sky â'i sianel griced penodol cawn ddilyn criced rownd y ril erbyn hyn. Yr IPL, Big Bash, a gemau prawf o Seland Newydd, Awstralia a De'r Affrig. Gwfreiddiol oedd gweld De Villiers yn sgorio cant oddiar 31 pelen yn erbyn India'r Gorllewin. Roeddwn i'n meddwl fod fy nghant yn erbyn yr Wyddgrug oddiar 64 pelawd yn gamp – ond 31 pelen ar y lefel uchaf!

Yna mae Cwpan y Byd ar y gorwel ymhen y mis. Bydd pwysau ar Awstralia i lwyddo ar eu tomen eu hunain, ond nid yw eu record yn dda yn y gystadleuaeth hon. Nid y gwledydd cryfaf ar lefel gemau prawf sy'n dod i'r brig yn y gemau 50 pelawd.

Dros y blynyddoedd bu traddodiad criced yn y Fro, fel oedd yn yr ardaloedd ble roedd Ysgolion Gramadeg. Cofiaf nifer o hogiau Brynrefs yn chwarae i dimau Ysgolion Sir Caernarfon – y mwyafrif o Ddeiniolen os cofiaf yn iawn.

Yna sefydlwyd tim Fron Dinas. Roedd llawer o Fro'r Eco yn cynhyrchioli'r tim hwnnw, nifer ohonynt yn bel-droedwyr hefyd. Cofiaf yn aml am wynebu Ifan Llanbabs ar y cae. Ifan a'i droellwyr araf yn bowllo gyda'r haul yn disgyn tu ôl iddo. Amhosib gweld y bêl. Meilir Owen a Gerald Parry a'u 'bygythiadau' tra'n maes. Braf dychmygu rhai o'r criw yma heddiw yn oes y 'sledding'. Wn i ddim pa effeithiol fuasai eu Saesneg!

Yna datblygodd cysylltiad rhwng clybiau Fron Dinas a Bethesda. Un o griw Fron Dinas oedd Andre Lambrecht yn wreiddiol o Lanberis. Clywais yn ddiweddar ei fod gydag ambell gyfaill yn gobeithio sefydlu clwb criced unwaith eto yng Nghaernarfon. Mae cryn ddiddordeb yn y cylch o hyd. Mae gan Gaernarfon draddodiad criced yn ymestyn yn ôl i'r 19ed ganrif, gyda'r maes mae'n ymddangos ar y Morfa. Gyda 5 adran yng Nghynghrair Gogledd Cymru rwy'n siwr y buasai croeso i'r tim yn ôl i'r gorlan.

RHEDEG MYNYDD

a Thraws-gwlad.

Dwy ras i'w hystyried yn ystod y mis i ddod.

Ar ddydd Sadwrn, Chwefror 14eg bydd Ras Moel-y-ci yn cael ei chynnal o'r fferm o'r un enw yn Nhregarth. Dyma'n draddodiadol y ras fynydd gyntaf o'r flwyddyn newydd yn Eryri, ac y mae wastad yn ras boblogaidd. Mae'n cynnwys rhyw 300 metr o ddringo ar gwrs 8cilomedr.

Wythnos yn ddiweddarach cynhelir Pencampwriaeth Trawsgwlad Cymru ar dir Stad y Rhugger Corwen. Nid yn aml y cynhelir y bencampwriaeth hon yng ngogledd Cymru (mwy'r cywilydd!), felly dyma gyfle i gael cystadlu yn erbyn goreuon y wlad.

EDRYCH 'MLAEN

Sadwrn olaf Ionawr a bydd sylw'r fro ar Eithin Duon ar gyfer un o gemau mawr y tymor. Y ddarbi ddisgwyliedig rhwng Llanrug a Llanberis ym mhumed rownd Tlws Cymru. Mae Llanrug wedi cynnal eu rhediad arbennig yn ddiweddar ac erbyn hyn mae Eithin Duon yn gadarnle. Anghyson yw perfformiadau Llanberis o hyd, ond mae dipyn o bedigri cwpan yn nhraddodiad y clwb. Chwip o gêm gobeithio o flaen torf dda.

Y tim sy'n denu sylw yw'r Waunfawr. Yn sicr, mae'n dymor llwyddianus iawn iddynt, ac yn dim sy'n sgorio'n rheolaidd. Mewn cynghrair gystadleuol iawn eleni maent ymysg y ceffylau blaen â chyfle am ambell gwpan hefyd.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Gwynedd yn gweithio i atal sgamiau

Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi ymgyrch ledled Prydain sy'n gweithio i dacio sgamiau anghyfrifol.

Mae'r Tîm Sgamiau Safonau Masnach Genedlaethol yn brosiect sydd wedi ei ariannu gan Fwrdd Safonau Masnach Genedlaethol, ac sy'n cael ei gynnal gan Safonau Masnach Ddwyrain Sussex. Mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i ddod o hyd i sgamwyr ac i atafaelu post sgâm ac arian mae'r sgamwyr wedi trio ei sgamio gan ddefnyddwyr diniwed.

Mewn rhai achosion lle mae'r sgâm wedi ei ganfod, mae'r Tîm Sgamiau Cenedlaethol yn gallu adennill arian. Os darganfyddir mai preswlydd o Wynedd yw'r dioddefwr, bydd swyddogion o Safonau Masnach y Cyngor yn ymweld â'r dioddefwr i gynnig cefnogaeth a chyngor ar sut i adnabod sgâm, ac mewn achosion lle mae arian wedi ei adfer byddent yn ei ddychwelyd iddynt.

Anfonir post sgam yn bwrpasol ar gyfer cael arian gan bobl drwy dwyll. Mae sgamiau raffl yn ddrwg-enwog am dargedu pobl hyn a phobl fregus sy'n llai tebygol o sylweddoli fod y post yn sgam.

Ar ôl ymateb i lythyr sgam, bydd manylion y dioddefwr yn cael ei rhoi ar y 'sucker's list', ac yn cael ei werthu i droseddwyr dros y byd. Yn aml iawn mae dioddefwyr yn cadw'n dawel gan nad ydynt yn ymwybodol eu bod wedi eu twyllo, gan gredu fod y wobr yn ddilys.

Os hoffech chi roi gwybod am sgam neu os hoffech unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â sut i osgoi sgamiau, cysylltwch â'r Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar 03454 040505 (llinell Gymraeg) neu ar 03454 040506 (llinell Saesneg) neu Safonau Masnach Cyngor Gwynedd ar 01766 771000.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

DYFAL DONC

Mae Cynghrair Pelrwyd Penygroes sy’n cyfuno timau o Fôn ac Arfon wedi hen ennill ei phlwy bellach. Ceir dwy adran ac erbyn hyn ein tim lleol Llanrug sydd ar frig adran dau. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen, ac yn dangos cryn ddyncwch gan y genethod. Pan ymunodd y tîm â’r gynghrair hwy oedd y tim ifancaf. Maent wedi cynnal ysbryd a magu profiad. Edrychwn ymlaen i’w gweld yn cipio dyrchafiad.

Mae’r grwp bowlïo dan dô a sefydlwyd ym Methel yn ddiweddar yn magu gwreiddyn a bellach mae rhyw 15 yn cyfarfod ar bnawn Mawrth yn y Neuadd Goffa am 1pm. Croeso i bawb.

Y DAITH I EITHIN DUON

Mae’r apêl am gofnodi hen feysydd pêl-droed yr ardal wedi dwyn ffrwyth. Wedi hanes caeau cicio Bethel daeth ymateb gan Kevin Owen, un o swyddogion clwb pêl-droed Llanrug. Yn ei druth mae Kevin nid yn unig yn nodi y caeau ond hefyd pa gynghreiriau yr oedd tîm Llanrug yn cystadlu ynddynt.

Mae’r stori yn dechrau yn nhymor 1922/23 gyda’r tîm yn y Welsh National League Ad.3(Gorllewin). Ar faes Cefn Llwyd chwaraeai y tim a hynny, ger Bryn Bras ac yno’r arhosodd y tîm tan ddiwedd tymor 29/30. Am rhyw reswm nid oedd tîm pentref yn nhymor 26/27, ond ail gychwyn wedi un tymor hesb gan aros yn Cefn Llwyd. Mae’n amlwg fod cryn broblemau mewn cynnal pêl-droed gynghreiriol o dan y prif adrannau yn y cyfnod yma. Hyd 1931 mae’r tîm yn dal i chwarae ond nid mewn cynghrair ond gan gymeryd rhan mewn ‘cystadlaethau’ – efallai cystadleuaeth cwpan ar lefelau lleol.

Daw symud wedyn, rhwng 1931 a 1937. Y maes erbyn hynny yw Cae Plwy a elwir erbyn hyn yn Gae Chwarae Nant y Glyn. Rydw i wedi gwneud defnydd o’r adnodd hwn dros y blynyddoedd ar gyfer Tlws yr Eco. Daw trefn i’r patrwm lleol hefyd gyda ffurfio Cynghrair Bangor a’r Cylch, gyda nifer o bentrefi lleol yn ffurfio timau.

Yn y ddau dymor rhwng 37/39 ni cheir cynghrair.

Yn amlwg, ni fu trefniadau ffurfiol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ail gychwynwyd yn 1946, eto ar y Cae Plwy ond yn y Welsh League Ad. 3 unwaith eto. Y tymor nesaf yn ôl i Gynghrair Bangor ond chwarae ar gae Parc Bailey ger Glan Moelyn. Mae’n siwr bydd disgyblion Ysgol Brynrefail yn y 50’au hwyr yn cofio’r maes eang yma, canys hwn oedd cae chwarae yr Ysgol ar gyfer gemau, tra roedd y caeau Ysgol presennol yn cael eu datblygu. Aros yn Cefn Llwyd wedyn tan 1951 ond symud o gynghrair Bangor i’r Gynghrair Genedlaethol Ad.2. Rhwng 51/53 symud i Ddôl Helyg, ble mae crochendy Piggery Pottery erbyn heddiw.

Yn nhymor 1953 daw y datblygiad gynghreiriol fawr gyda sefydlu Cynghrair Caernarfon a’r Cylch. Y tymor cyntaf caed gemau ar Barc y Rhos tu cefn i’r Sefydliad Coffa. Y tymor nesaf ar dir fferm Tyddyn Mawr. Tair blynedd wedyn yn ôl ar dir Parc y Rhos. Y mae tymor 58/59 yn dirwyn cyfnod cyntaf hanes clwb Llanrug i ben. Rhwng 59/68 nid oedd tim yn y pentref.

Yna mae ail gyfnod y clwb yn tanio, a hynny drwy symud yn barhaol i Eithin Duon. Cofiaf yn dda chwarae gyda’r Normal ar yr ‘hen’ Eithin Duon yn ’68. Cytaïu newid pren , oer, a’r cae a llechwedd sylweddol. Wyneb mwdlyd. Tipyn o sioc i hogiau’r Normal ‘o ffwrrdd’. Dim byd yn wahanol i ni’r hogiau lleol wei eu magu ar gaeau Llechid, Cae Dymp, Cricceth... Mae’n glod i bwyllgorau’r clwb dros y blynyddoedd am eu gwaith caled yn datblygu’r cyfleusterau ar ac oddi ar y cae a welwn heddiw. Hefyd bu symud drwy Gynghrair Caernarfon i Wynedd ac erbyn hyn i’r Alliance.

Yr hyn sy’n ddiddorol, yn wahanol i Fethel, ni fu unrhyw ddatblygiadau adeiladol ar y caeau hyn er bod maint pentref Llanrug wedi datblygu’n sylweddol. Parhaed hynny gobeithio.

Diolch i Kevin am ymateb. A fydd yn bosib i gyflawni hanes y Fro. All rywun ymateb o Lanberis, Waunfawr a Deiniolen. Edrychaf ymlaen.



DILYN EI FRAWD

Cafodd Tomos Emlyn o Lanrug sylw yn y golofn ychydig fisoedd yn ôl. Roedd yn cael tymor llwyddianus iawn draw ym Mhrifysgol Stirling. Tra yma yng Nghymru ennillodd Tomos gapiau i dimau dan 19 Cymru. Yn anffodus, ar hyn o bryd mae Tomos wedi torri ei goes wrth ymarfer. Dymunwn wellhad buan iddo.

Mae’r sylw yn symud rwan i’w frawd Ifan Emlyn sy’n 16 oed. Ar hyn o bryd mae Ifan yn astudio Ymarfer Corff yng Ngholeg Menai dan hyfforddiant Marc Lloyd Williams. Fel ei dad a’i frawd mae Ifan hefyd yn dipyn o bêl-droediwr.

Ers iddo fod yn ‘ddim o beth’ roedd Ifan yn chwarae i wahanol dimau ieuenctid clwb Llanrug. Yng nghanol y cae mae Ifan yn chwarae, ac mae nifer wedi cyfeirio fod ‘injan’ dda ganddo, yn rhedeg fyny a lawr y cae. Erbyn hyn mae Ifan yn rhan o garfan -19 Academi Bangor.

Ond, fel ei frawd mae Ifan hefyd wedi teimlo’r wefr o gynrychioli ei wlad. Mae mewn dwy garfan genedlaethol – yr Ysgolion -18 a’r Colegau -19. Mae hyn yn dipyn o gamp am ei oedran, a gyda dwy flynnedd arall yn y carfannau gobeithio.

Mae wedi chwarae i dîm y colegau yn erbyn Lloegr (colli 2-1). Chwaraewyd y gêm ar St. George Park, yr adnodd ble mae timau cenedlaethol Lloegr yn ymarfer. Roedd safon y maes yn anhygoel meddai Ifan, fel bwrdd snwcer.

Yr wythnos diwethaf roedd ganddo gemau i’r ddwy garfan yn erbyn tîm teithiol Awstralia draw yn ardal Caerdydd. Hefyd yng ngharfan y colegau roedd Nathan Williams sy’n aelod rheolaidd o dîm Llanberis. Edrychwn ymlaen i ddilyn datblygiad Ifan.


TIPYN O WAHANIAETH

Soniais fel bod nifer o gwynion yn cynyddu – gan gynnwys Taro’r Post – am bris tocynnau ar gyfer gemau rygbi rhyngwladol yng Nghaerdydd bellach. Roedd tocynnau Gemau’r Hydref hyd at £80. Nid oedd y maes yn llawn, hyd yn oed ar gyfer y gêm yn erbyn y Teirw Duon. Mae’r prisiau ar gyfer gemau Cwpan y Byd yn ddrutach. Teg gofyn y cwestiwn felly os yw’r prisiau yma yn rhesymol i’r mwyafrif o wir gefnogwyr rygbi Cymru. A ddylsid codi y fath bris ar gyfer ‘achlysur’?

Am fy mod yn aelod o Glwb Cefnogwyr Pêl-droed Cymru derbyniais e-bost ar gyfer pwr casu tocynnau ar gyfer y tair gem Ewropeaidd gartref – Gwlad Belg, Israel ac Andorra. Fel pensiynwr, ar gyfer y tair gem rydw i’n talu £12 - £4 y gem – ac £1.50 cludiant. Y sedd gadw ar hanner ffordd yn stadiwm Caerdydd. I oedolion nad ydynt yn bensiynnwyr pris tri tocyn fuasai £50. Bydd y cae yn llawn o hogia ‘ffwtbol’.

Chwaraeon

Dringwr ifanc o Lanrug yn dringo dros Brydain.



Llongyfarchioni i Kieran Forrester o Lanrugsydd wedi ei ddewisi i Dim Dringo Iau Prydain ar gyfer eleni. Mae Kieran yn 14 oed ac wedi bod yn cystadlu yn lleol ers chwe mlynedd. Mae wedi cynrychioli Tim Dringo Cymru chwe gwaith, gan gystadlu yn rownd derfynol Pencampwriaeth Prydain y llynedd. Mae llwyddiannau bachgen mor ifanc yn syfrdanol: 2il ym Mhencampwriaeth Ieuenctid BMC, 3ydd ym Mhencampwriaeth Ieuenctid Prydain, 2il ym Mhencampwriaeth Cymru, 1af ym Mhencampwriaeth Agored Iwerddon, a 3ydd yng Nghystadleuaeth ROCfest Manceinion. Mae'n ymarfer yn rheolaidd yng Nghanolfan Ddringo Beacon yng Nghaernarfon a Wal Indy, Llanfairpwll. Fel aelod o Dim Dringo Iau Prydain bydd Kieran rwan yn cael y cyfle i gystadlu yng nghystadleuthau Ewrop a'r Byd. Mae ganddo tua 5 mlynedd o ddringo cystadleuol yn yr adran ieuenctid. Mae cystadleuthau dringo yr adran ieuenctid yn golygu dwy ddringfa. Yn y gyntaf, rhaid iddo ddringo mor uchel a phosibl ar grws 20m, gan ddefnyddio rhaff i'w warchod. Mae'r ail ddringfa yn anoddach. Does dim un o'r cystadleuwyr yn cael gweld y lleill

yn dringo, nac yn cael gwybod pa mor uchel eu llwyddiant. Mae'r math hwn o ddringo yn golygu fod angen nerfau o ddur i herio'r wal heb wybod pa mor uchel y mae'n bosibl ei gyrraedd! Mae Kieran yn aelod o Academi Ddringo Ieuenctid Gogledd Cymru ac yn cael ei hyfforddi gan ei dad, Chris, sy'n ddringwr profiadol iawn. Ar wahan i'r dringo cystadleuol dan-do, mae Kieran hefyd yn mwynhau'r her o ddringo rhai o glogwyni arfordir gogledd Cymru, ond mae wedi cael cyfle i ddringo yn Ffrainc a Sbaen yn ogystal. Ond nid dringwr yn unig mohono. Mae'n athletwr amryddawn, ac mae eisoes wedi dod yn ail yng Nghystadleuaeth Rhedeg Traws-gwlad Ysgolion Cymru, ac wedi ennill Cystadleuaeth Rhedeg Traws-gwlad Genedlaethol yr Urdd bedair o weithiau. Mae hefyd yn mwynhau beicio, sgio a hwylio. Dichon y cawn glywed llawer mwy am ei llwyddiannau yn ystod y misoedd a'r blynnyddoedd i ddod. (Llun drwy ganiatad "The Climbing Unit")